IMMANUEL.

NEU

DDIRGELWCH

DY FODIAD

MAB DUW

YN Y

CNAWD.

WEDI EI AGOR

Gan y gwir Barchedig DAD yn *NUW*,

JAMES USHER

GYNT ARCH-*ESGOB ARMAGH*, YN YR

IWERDDON.

NEWYDD EI GYFIAETHU I'R GYMRAEG

GAN *W. WILLIAMS*,

GWEINIDOG YR *EFENGYL.*

TREFECCA:

ARGRAFFWYD GAN E. EDWARDS. M.DCC.LXV.

BRITISH MUSEUM
25 APR 57

IMMANUEL.

NEU

DDIRGELWCH

DYFODIAD

MAB DUW YN Y CNAWD, &c.

MAE y Prophwyd ſanctaidd yn llyfr y Diarhebion yn maeddu pawb *nad yw wedi dyſgu Doethineb, na gwybod Gwybodaeth y Sanctaidd*, ar y gofyniad hwn; *Pwy a Eſgynodd i'r Nefoedd, neu a ddiſgynodd? Pwy a gaſglodd y gwynt yn ei ddyrnau? Pwy a gadarnhaodd holl derfynau'r ddaear? Beth yw ei enw ef, a pheth yw enw ei Fab os gwyddoſt?* Ac *i'n* cynnorthwyo ni yn hyn, y Mab ei hun ſy'n dywedyd wrthym, pan oedd ef yma ar y ddaear, *Na eſgynnodd neb i fynu i'r Nef ond yr hwn a ddiſgynnodd o'r Nef, ſef Mab y dyn yr hwn ſydd yn y Nef.* Ac fel na byddom yn anwybodus o'i *Enw*; y Prophwyd Eſaia a rag-ddywedodd, *Eſa.* ix. 6. yn hîr o'r blaen, *Bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni, a bydd y Llywodraeth ar ei Yſgwyddef; gelwir ei Enw ef Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragywyddoldeb, Tywyſog tangnefedd.* Ac yn awr os gofynir pa fodd y gall y pethau hyn gyd-ſefyll? I fod Mab y dyn, yr hwn ſy'n llafaru *ar y ddaear*, etto ar yr un pryd yn y *Nef*? I *Dad tragywyddoldeb* i gael ei eni mewn *amſer*? Ac i'r Duw cadarn i ddyfod yn *fachgen*, yr hwn yw y cyflwr gwanaf o ddyn ei hunan? Rhaid i ni alw i gof mai y llythyren gyntaf o'r Enw mawr hwn yw RHYFEDDOL.—Pan ymddangoſodd ef gynt i *Manoa*, ei enw ef oedd Rhyfeddol; *Barn.* xiii. 18, 19. ond hwnnw a'r holl ryfeddodau a wnaed erioed, ſydd raid iddynt roi lle i Ddirgelwch mawr ei Gnawdoliaeth, ac mewn perthynas iddo, ni phaid

byth a bod yn Rhyfeddol. Canys am y gwaith hwn gellir gwneud yn wir yr hyn a ddywedpwyd am y bar-nedigaethau rhyfeddol a ddygodd Duw ar yr Aipht, pan oedd ef am ddangos ei allu, a chyhoeddi ei Enw tros yr holl ddaear: *Ni bu ei fath, ac ni bydd mwyach ei gyffelyb.*— Ni bydd Creadigaeth pob peth o ddim, yr hyn oedd dechreuad Gweithredoedd Duw (gwaith y chwech diwrnod hynny ag oedd megis yn gwneud terfyn ar y Sabbath maith hwnnw, nad oedd iddo cricd ddechreu, ymha un yr oedd y TAD, y MAB, a'r YSPRYD Glan yn anfeidrol ogoneddus eu hunain, ac yn llawenhau yn y mwynhad y naill o'r llall, heb gyfrannogi gwybodaeth o hyn i un creadur;) na'r Adgyfodiad oddi wrth y meirw, ac adferiad pob peth ag a fydd o flaen y Sabbath trag'wyddol hwnnw, yr hwn bydd iddo ddechreuad heb fod fyth iddo ddiwedd; ni bydd y cyntaf hwnnw, meddaf, neu y diweddaf hwn, er mai darnau o waith mwya' rhyfeddol fyddant, i'w cymmaru i hwn, ymha un y rhyngodd bodd i'r ARGLWYDD amlygu y radd uwcha (os gellir dweud fod un peth yn uwcha yn hynny ag fydd yn anfeidrol, ac heb fesur a therfyn iddo) o'i Ddoethineb a'i ddaioni, ei allu, a'i ogoniant. Y Caldeaid paganaidd a attebasant i'gwestiwn a ofynwyd gan frenin Babilon, mai anghyffredin oedd y peth a geisiodd ef, ac *nad oedd neb arall a fedrai ei ddangos ond y Duwiau nad yw eu trigfa gyd â chnawd*; ond yr anghyffredinol-rwydd o hyn fy'n gorwedd yn yngwrthwyneb i hynny ag oeddent hwy yn ei ddych'mygu ei fod yn eglur; *Iddo ef yr hwn fydd uwch-law pawb yn fendigedig yn oes oesoedd*, i gymmeryd ein cnawd ni, a thrigo, neu wneud ei babell gyd â ni; ac fel y darfu i ogoniant Duw lanw'r babell (yr hon oedd gysgod o nattur ddynol ein HARGLWYDD) yn y fath gyflawnder na's gallai Foses ei hun agoshau atto, (ac yn hynny bod yn fyrr megis ymhob peth arall) o ARGLWYDD y Tŷ) ac a lanwodd deml Salomon (cysgod eilwaith o Gorph Tywysog ein Heddwch) yn y fath fodd na's gall'sai'r Offeiriaid fyned i mewn: Felly *Yiddo ef y*

mae

mae holl gyflawnder y Duwdod yn trigo yn gorphorol. Ac am hynny, os gall'ſai Salomon ddywedyd gyd â rhyfeddod am y deml honno a adeiladwyd â dwylo; *Ai gwir yw y preſwylia yr Arglwydd gyd â Dyn ar y ddaear? Wele Nefoedd, a Nefoedd y Nefoedd ni allant dy amgyffred, pa faint llai y dichon y tŷ hwn a adeiledais i?* Ni a allwn gyd â rhyfeddod mawr ddywedyd gyd â'r Apoſtol 1 *Tim.* iii. 16. am y wir Deml, nad oedd o'r adeilad hwn, *Yn ddi-ddadl mawr yw dirgelwch Duwioldeb, Duw a ymddangoſodd yn y Cnawd*; ie, *a wnaethpwyd o wraig, a aned o forwyn:* Peth mor rhyfeddol, fel y rhoddwyd ef i'r byd anghrediniol ſaith gant a deugain o flynyddau cyn ei gyflawni; ie, arwydd o ddewiſiad Duw ei hun: Ymhlith yr holl ryfeddodau yn y dyfnder, ac yn yr uchelderau: *Am hynny yr Arglwydd ei hun a ddyry i chwi arwydd: Wele Morwyn a fydd feichiog, ac a eſgor ar Fab, ac a eilw ei Enw ef Immanuel,* Eſa. vii. 14. Rhyfeddod hynod yn wir, a mawr tu hwnt i bob cymmariaeth; i Fab Duw gael ei wneuthur o wraig, ie, ei wneuthur o wraig a wnaed ganddo ef ei hunan; i'w chroth hi y pryd hynny, a'r Nefoedd yn awr, ei gynnwys ef na's gall Nef y Nefoedd gynnwys 'mohono. Iddo ef yr hwn oedd ganddo Dad a Mam, Achau pa un a gyfrifir i fynu hyd Adda, yr hwn ynghyflawnder yr amſer a anwyd yn *Bethlehem*, a phan ddarfu iddo orphen ei yrfa a dorrwyd ymaith o dir y rhai byw, yn *Jeruſalem*; ei fod ef er hyn oll, mewn gwirionedd yr hyn ag oedd *Melciſedec* y cyſgod o hono yn meddyliau dynion ei amſer ef, heb dad, heb fam, heb achau, heb ddechreu dyddiau, na diwedd einioes.

Bod ei Dad yn fwy nag ef, ac etto ei fod ef gogyfuwch â'i Dad: Ei fod ef cyn bod *Abraham*, ac etto genedigaeth *Abraham* yn rhagflaenu ei Enedigaeth ef yn agos i ddwy fil o flynyddau. Ac yn olaf, ei fod ef yr hwn ag oedd yn fab i *Ddafydd*, etto yn Arglwydd *Dafydd*: Pwngc ag oedd yn ſuddo dyalldwriaethau y dyſgawdwyr pennaf ymhlith y Phariſeaid, y rhai oedd etto heb ddyſgu *Doethineb, na gwy-*

bod Gwybodaeth y Sanctaidd. Dadrys y cwlwm hwn ſydd yn gorphwys ar iawn ddyall y cyſylltiad rhyfeddol ſy rhwng y nattur ddynol â'r ddwyfol yn undeb Perſon ein IACHAWDWR. Ac o blegid agoſrwydd yr undeb perſonol, pa beth bynnag a ellir gadarnhau am un o'r ddwy nattur, yr un peth a ellir ddywedyd yn wirioneddol am yr holl Berſon, oddi wrth ba un bynnag o'r naturiaethau y b'o yn dyfod allan; a thu ag at wneuthur hyn yn fwy eglur, gallwn alw i gof yr hyn y mae'r Apoſtol yn ei ddyſgu i ni am ein IACHAWDWR, *Col.* ii. 9. *Ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn trigo yn gorphorol*; h. y. trwy y fath undeb perſonol a ſylweddol, ag ſydd yn an-wahanol ac yn trag'wyddol gyſylltu y Duwdod anfeidrol hwnnw â'i Ddyndod anfeidrol yn undeb yr unrhyw an-wahanol Berſon.

Efe, ymha un y mae y Cyflawnder hwnnw yn trigo, yw y Perſon; y Cyflawnder hwnnw ſydd yn trigo, yw y Nattur. Yn awr y mae yn trigo ynddo ef, nid unig Gyflawnder y Duwdod, ond Cyflawnder y Dyndod hefyd: Canys yr ydym ni yn credu ei fod ef yn berffaith DDUW, wedi ei genhedlu o Sylwedd ei Dad cyn yr holl oeſoedd; ac yn berffaith ddyn, wedi ei wneud o ſylwedd ei fam ynghyflawnder yr amſer; ac am hynny rhaid i ni ddal fod ynddo ef ddwy o Naturiaethau gwahanol; a dwy mor wahanol nad y'nt yn gwneud un nattur gymmyſgedig, ond byth yn parhau ynghyd yn ddi-gymmyſg, ac yn wahanol: Ond nad yw ef ymha un y mae cyflawnder y dyndod yn trigo yn un, ac yntau ymha un y mae Cyflawnder y Duwdod yn un arall; ond ei fod ef ymha un y mae Cyflawnder y ddwy nattur hyn yn trigo yn un ac yn unrhyw *Immanuel*; ac yn ganlynol rhaid yw credu yn ſicr nad yw ef ond un Perſon. Ac yna rhaid i ni yſtyried na chymmerodd y Nattur ddwyfol berſon dynol, ond y Perſon dwyfol a gymmerodd y nattur ddynol; ac o'r tri Pherſon dwyfol, nid y cyntaf na'r trydydd a gymmerodd y nattur hon arno; ond y Perſon canol ydoedd yr hwn ag oedd i fod yn ganol

yn.

un, ag oedd raid iddo gymmeryd arno y *Cyfryngdod* yma rhwng Duw a ni. Yr hyn hefyd oedd yn gwbl angenrheidiol, cyſtal er gwell cynhaliad o gyweirdeb y Drindod bendigedig yn y Duwdod, ag o ddyrchafiad uwch i ddynol-ryw trwy y berthynas hynny ag oedd yr ail Berſon y CYFRYNGWR yn ei ddwyn at ei Dad: Canys pe buaſai gyflawnder y Duwdod yn trigo fel hyn yn un perſon dynol, rhaid oedd bod felly bedwarydd perſon yn cael ei chwanegu at y Duwdod: A phe buaſai un o'r tri Pherſon heb yr ail yn cael ei eni o wraig, fe fuaſai ddau fab yn y Drindod.——

Etto mewn perthynas i ni, yr Apoſtol a ddengus, *Gal.* iv. 5, 6. mai i'r únig ddiben hwn *Y danfonodd Duw ei Fab wedi ei wneuthur o wraig, fel y derbyniem y mabwyſiad*; ac ar hynny y mae ef yn gwneud yr addyſg hyn; *Felly nid wyt ti mwy yn was ond yn fab, ac os mab, Etifedd hefyd i Dduw trwy Griſt*; a thrwy hynny yn ein gwneud ni i ddyall fod yr un-rhyw berthynas ag ſydd gan GRIST at DDUW wrth nattur (â ni wedi ein cael ynddo ef) gennym ninnau atto ef trwy Ras. Wrth nattur *Efe yw yr unig genhedledig Fab y Tad*; ond Gras goruchel yw hyn a Bwrcaſodd efe i ni; ſel, *cynnifer ag a'i derbyniaſant ef, y rhoddes allu*, neu y rhagorfraint iddynt, *i fod yn feibion i Dduw*; *ſef y rhai a gredaſant yn ei Enw.* Ac er ei fod ef yn cadw iddo ei hun y blaenoriaeth ag ſydd yn ddyledus iddo mewn ffordd enwedigol, o *fod yn gyntafanedig ymhlith brodyr lawer*; etto, ynddo ef, ac erddo ef, y lleill hefyd trwy Ras o Fabwyſiad, y'nt oll yn cael eu cyfrif fel cyntaf-anedigion.

Felly y parodd DUW i Moſes ddweud wrth Pharao, *Etſod.* iv. 22, 23. *Fy mab i, ſef ſy nghyntafanedig yw Iſrael; a dywedais wrthyt, Gollwng fy mab fel i'm gwaſanaetho; ond os gwrthodi ei ollwng ef, Wele mi a laddaf dy fab di, ſef dy gyntafanedig*; a holl Iſrael DUW yn gynnwyſedig o Iuddewon a Chenhedloedd ſydd yn yr un modd yn cael eu deſgrifio gan yr Apoſtol, *Heb.* xii. 23. *o fod yn gymmanfa ac yn gynnulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a'ſgrifenwyd yn y nefoedd.* Canys

wrth

wrth yr un rhefwm ag ſydd yn eu gwneud hwy yn feibion, ſef eu corpholaethu hwy yng NGHRIST, y maent hefyd yn cael eu gwneud yn gyntafanedigion: fel (pa fodd bynnag y mae'n digwydd wrth gyfraith y tir) wrth rëol yr Efengyl, y canlyniad hyn ſydd fyth yn parhau yn wirioned; *Os Plant, Etifeddion hefyd; Etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Chriſt.*—— A chymmaint a hyn am y MAB, y Perſon a gymmerodd y nattur arno.——

Y nattur a gymmerodd yw had Abraham, *Heb.* ii. 16. had Dafydd, *Rhuf.* i. 3. had y wraig, *Gen.* iii. 15. y Gair, yr ail Berſon yn y Drindod a wnaethpwyd yn gnawd; h. y. MAB DUW ei hun a wnaethpwyd o wraig, ac felly a ddaeth yn wir a ſylweddol ffrwyth ei chrôth hi. Ac ni chymmerodd ef 'chwaith o ſylwedd ein nattur ni yn unig, ond hefyd ei holl gynheddfau a'i pherthynaſau hi; felly, fel y gellid dywedyd am dano, fel am Elias a'r apoſtolion, mai *Dyn oedd ef yn rhaid iddo ddioddef fel ninnau*, Iago v. 17. a'r *Heb.* v. 7. ie efe ymddaroſtyngodd ei hun yn nyddiau ei gnawd i'r un wendidau ag y'm ni yn gael yn ein nattur fraulyd ni, ac yr oedd wedi ei amgylchu â'r un-rhyw brofedigaethau; ac mewn gair, ymhob peth y gwnaed ef yn gyffelyb i'w frodyr, ond pechod yn unig.

Ymha âchos, fel na's cymmerodd arno berſon dynol, ond nattur ddynol; felly nid oedd angenrheidiol iddo gymmeryd gwendidau perſonol; y fath a bod allan o'i bwyll, bod yn ddall, yn gloff, neu tan ryw glefydon neillduol; y rhai ſydd yn perthyn i rai dynion yn unig, ac nid i bawb yn gyffredin; ond y rhai hynny yn unig, pa rhai ſy'n perthyn i holl nattur dynol ryw; y fath yw newyn, ſyched, blino, gâlar, poen, a marwolaeth. Rhaid i ni ddal ſylw ymhellach yma yn ein *Melciſedec* hwn, fel nad oedd ganddo fam mewn perthynas i un o'i naturiaethau, felly nid oedd lle fod ganddo dad ymherthynas i'r llall; ond bod iddo gael ei eni o forwyn bur ddihalog, heb gynnorthwy un gwr.—A hyn hefyd oedd yn

gwbl

gwbl angenrheidiol, ſel am achoſion eraill; ſelly hefyd am hollol ryddhad y nattur a gymmerodd ef arno oddi wrth gyfrifiad a halogiad pechod Adda. Gan i bechod ddyfod i'r byd trwy yr un dyn hwnnw; pob tad ſydd yn dyfod i fod yn *Adda* i'w blentyn, ac yn traddodi llygredigaeth ei nattur i rhei'ny oll ag y mae ef yn ei genhedlu. Am hynny ein IACHAWDWR yn cymmeryd ſylwedd ein nattur, ac heb trwy y ſfordd gyffredin o genhedliad naturiol, ſy trwy hynny yn cael ei ryddhau oddi wrth bob cyffyriad a brycheuyn o'lygredigaeth ein cnawd ni, yr hyn ſy trwy'r moddion hynny yn cael ei droſglwyddo o'r dyn cyntaf i'w holl hiliogaeth ef. Ar ba ſylfaen, eſe wedi ei wneuthur o ddyn, ac nid gan ddyn, ac felly dyfod i fod yn ffrwyth di-gyfrwng o'r grôth, ac nid o'r lwynau; rhaid yw ei gyfaddef ef, i fod y *Peth Sanctaidd hwnnw*, yr hwn a aned fel hyn o forwyn mor ſendigedig; yr hon, er nad ydoedd hi ond yr Egwyddor ddefnyddiol a dioddefol, o ba un y gwnawd y cnawd gwerthfawr hwnnw, a'r YSPRYD Sanctaidd y Gweithiwr effeithiol; etto ni's gellir trwy hynny ddywedyd fod y Dyn CRIST IESU yn fab i'w Yſpryd ei hun; o ran mae tadau yn cenhedlu eu plant o'u ſylwedd eu hunain; ni's gwnaeth yr YSPRYD Glan felly, ond eſe a'lumiodd ei gnawd ef, oddi wrth ba un y mae eſe ei hun yn deilliaw, allan o'r creadur honno, eu gwaith hwynt ill deuoedd, *Gwaſanaethyddes ein Harglwydd*; yr hon, oddi yno, a *eilw'r holl genhedloedd yn Wyntyddedig*. Y grôth honno o'i heiddo hi oedd yr yſtafell briodas, ymha un y darfu i'r YSPRYD Sanctaidd, glymmu y cwlwm diddattod hwnnw rhwng ein nattur ddynol ni â'i Dduwdod: MAB DUW a gymmerodd i undeb ei Berſon yr hyn nad oedd o'r blaen; ac etto heb gyfnewid (canys felly 'mae'n rhaid i DDUW fyth fod) yn aros yr un ag oedd ef o'r blaen; trwy ba ffordd y daeth i ben, fod y *Peth Sanctaidd hwnnw ag anwyd, yn wir, ac mewn gwirionedd yn cael ei alw yn Fab Duw.*

Yr hwn ryfeddol gyſylltiad o ddwy nattur mor anſoidrol yn gwahaniaethu yn undeb un Perſon, pa

fodd y cyſylltaſant yno ſydd yn ofyniad mwy addas i ddyalldwriaethau angylion nag i'n dyalldwriaethau bytrion ni i ymofyn ar ei ol. I ba bwrpas y gallwn ddal ſylw hefyd, fod yn adeilad Arch y Cyfammod dröad wynebau y Cerubiaid tu ag at y drugareddfa (cyſgod o'n Iachawdwr) y fath ag oedd yn penodi allan i ni, mai dyna'r pethau mae'r angylion yn dymmuno daroſtwng i lawr i edrych arno. Ac am hynny, bydded y boddlonrwydd hwnnw a roddodd yr angel i'r fam wyrŷf (i'r hon yr ydoedd yn perthyn yn bennaf i ofyn y cweſtiwn, Pa fodd y gall y pethau fod) i'n boddloni ni. *Nerth y Goruchaf a'th gyſgoda di.* Canys fel y mae y rhan gyntaf o'r ymadrodd hwnnw yn ein hyfforddi ni nad oes dim yn amhoſſibl gyd â Duw, felly y mae y rhan olaf yn ein galw i gof fod yr un Duw wedi cyſgodi y Dirgelwch hwn a'i orchudd ei hun, na's dylem ni ryfygu gyd â gwŷr *Beth-ſemes* i edrych i'r *Arch* hyn o'i eiddo ef; rhag am ein cywreinrwydd y'n taro ni fel eu tarawyd hwy.——

Yn unig hyn a allwn ddywedyd yn ſier, a dal yn fwyaf cadarn; fel nad yw bod gwahaniaeth perſonau yn y Drindod ſanctaidd ddim yn attal o undeb yn nattur y Duwdod, er bod pob perſon yn hollol ddal ei berthynaſau anghyfranogol ei hun; felly nid yw gwahaniaeth y ddwy nattur ym Mherſon ein *Cyfryngwr* mewn un ddull yn taro yn erbyn undeb ei Berſon, er fod pob nattur yn aros yn gyfan ynddi ei hun, ac yn dal ei pherth'naſau [*properties*] cyttunol â hynny,— heb un cyfnewidiad cymmyſgedd nag anrhefn.——

Pan darfu i *Moſes* weled y llwyn yn lloſgi gan dân, ac etto heb ei ddifa, 'fe ryfeddodd wrth yr olwg, ac a ddywedodd, *Mi a dröaf i edrych ar y weledigaeth fawr hon, pa ham nad yw y berth yn lloſgi?* Ond ar hynny, pan darfu i Dduw alw arno o ganol y berth, a dywedyd, *Na agosha yma*, a dywedyd pwy ydoedd; *Moſes a grynodd, a guddiodd ei wyneb, ac ni feiddiai Edrych ar* D D U W. Etto, er hynny wedi ein rhybyddio fel hyn ni feiddiwn ni dynnu mor agos; beth

beth ſydd yn attal, na's gallwn ſefyll o hirbell, *a rhyfeddu wrth yr olwg ſawr hon? Ein Duw ni ſydd dân yſol*, medd yr Apoſtol; ac yr ydym yn cael cweſtiwn wedi ei oſod ger ein bron yn y Prophwyd *Eſa.* xxxiii. 14. *Pwy o honom a drig gyd â'r tân yſol? a phwy o honom a breſwylia gyd â'r lloſgfeydd trag'wyddol?* Nid oedd *Moſes* fel Prophwydi eraill, ond DUW a lafarodd wrtho *wyneb yn wyneb*, fel gwr yn llafaru wrth ei gyfaill: Ac etto, er hyn i gyd pan y ceiſiodd ef gan yr ARGLWYDD ddangos iddo ei ogoniant, ſe dderbyniodd yr atteb hwn; *Ni's gelli weled fy wyneb, canys ni's gwel neb dyn fi a byw.* *Abraham* o'i flaen, er mai cyfaill neillduol DUW oedd efe, a thad y ffyddloniaid, a phlant DUW; etto edrychodd arno yn beth mawr iddo gymmeryd arno gymmaint a chwedleua â DUW, *Ac yntau ond llŵch a lludw.* Ië, yr angylion eu hunain, y rhai ſydd fŵy mewn *gallu a nerth*, y'nt yn gorfod cuddio eu hwynebau pan b'ont yn ſefyll o'i flaen ef; heb fod yn abal edrych ar ddiſgleirdeb ei ogoniant!

Gyd â pha fath ſyndod, gan hynny, gallwn weled ein llŵch a'n lludw ni wedi ei gymmeryd i undeb anwahanol â Pherſon DUW ei hunan; ac wedi ei dderbyn i drigo yma fel Cyfaneddwr tan yr un gronglwyd: ac etto ynghanol y lloſgfeydd trag'wyddol hyn, y berth yn aros heb ei difa, ac i bara yn iraidd ac yn wŷrddlas tros byth! Ië, pa fodd na fyddem ni gyd âg *Abraham* yn llawenhau weled y dydd hwn, ymha un y mae, nid yn unig ein nattur ni yn Mherſon ein HARGLWYDD IESU, wedi ei gwneud i drigo tros byth yn y lloſgfeydd trag'wyddol hynny, ond ynddo, a thrwyddo ef ein perſonau ni ein hunain hefyd ſydd wedi cael eu dwyn mor agos iddynt, fel y mae DUW yn goſod ei Gyſſegr a'i Babell yn ein plith, a thrigo gyd â ni; a'r hyn fydd lawer mwy, ein gwneud ni ein hunain i fod yn dŷ ac yn drigfan, ymha un y mae ef yn gweled bod yn dda i drigo trwy ei Yſpryd; yn ol yr hyn a ddywedodd yr Apoſtol, 2 *Cor.* vi 16. *Teml y Duw byw ydych chwi, fel y dywe-*

dodd

dodd Duw, Mi a hreſwyliaf ynddynt, ac a rodiaf yn eu mysg; a mi a fyddaf yn Dduw iddynt hwy, a hwy a fyddant yn bobl i mi.

A'r weddi ryſeddol honno, yr hon a wnaeth ein IACHAWDWR ei hun at ei Dad yn ein hachos ni; *Ioan* xvii. 20—23. "Ac nid wyf fi yn gweddio tros y rhai hyn yn unig, ond tros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt: fel y byddont oll yn un; megis yr wyt ti y Tad ynof fi, a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau yn un ynom ni; fel y credo'r byd mai ti a'm hanfonaiſt i. Myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi; fel y byddont wedi eu perffeithio yn un, fel y gwypo'r byd mai tydi a'm hanfonaiſt i, a charu o honot hwynt megis y ceraiſt fi."— Tu ag at gyflawni y Cyſſylltiad hwn rhwng DUW a ni; yr hwn ag oedd i fod yn *Ieſu*, neu yn *Iachawdwr* i ni, oedd raid iddo hefyd fod yn *Immanuel*; yr hyn o'i gyfieithu, yw, *Duw gyd â ni*; ac am hynny yn ei Berſon yn *Immanuel*; h. y. DUW yn trigo yn ein cnawd ni; canys yr oedd ef hefyd wrth ei ſwydd i fod yn *Immanuel*; h. y. rhaid oedd iddo ef wneud DUW yn un â ni. Canys ei ſwydd briodol ef oedd hyn, bod yn *Gyfryngwr* rhwng DUW a dyn; rhaid oedd iddo *Gyfrannogi* â'r ddau: A chan ei fod ef o dragywyddoldeb o un Sylwedd â'i Dad, rhaid oedd iddo fod ynghyflawnder yr amſer hefyd o un ſylwedd â'i blant; *o blegid hynny, am fod y plant yn gyfrannogion o gig a gwaed; yntau hefyd yr un modd fu gyfrannog o'r un pethau*, medd yr Apoſtol.

Yr y'm ni yn darllain yn yr Hanes Rufeinaidd i'r Sabeaid a'r Rhufeiniaid fyned i Ryfel; ac ar y fath achos ag enwir yn y Bennod ddiweddaf o Lyfr y *Barnwyr*; ſef, i feibion *Benjamin* bob gwr ymaſyd mewn gwraig o ferched Silo; y Benywaid, gan fod yn ferched i un blaid, ac yn wragedd i'r blaid arall, a ddaethant i fod yn blaid ganol; ac a gymmeraſant arnynt derfynu'r ymryſon; felly, fel trwy gyfryngdod y rhai hyn, ag oedd a hawl neillduol ganddynt i bob ochor, a thrwy ba rai gwnawd y berthynas newydd

hyn

hyn i fynu rhwng dwy blaid elyniaethol; hwynt hwy y rhai o'r blaen oedd yn ſefyll ar y tylerau uwchaf o elyniaeth, a ddaethant, nid yn unig i fyw mewn heddwch, ond hefyd i gyſylltu eu hunain ynghyd mewn un corph a gwladwriaeth.

DUW a ninnau oedd Elynion, cyn i ni gael ein heddychu â'i FAB; Efe ag ſydd i fod yn Dangnefedd, ac i'n cymmodi ni â DUW, ac i ladd y gelyniaeth hyn, ſydd raid fod ganddo hawl yn y ddwy blaid ag ſydd mewn ymrafael; a bod ganddo'r fath awdurdod ar y naill a'r llall, fel y gallo ddanfon cennadwri gyſurus i feibion dynion; *Ewch at fy mrodyr a dywedwch wrthynt: yr wyf fi yn eſgyn at fy Nhad i, a'ch Tad chwithau; ac at fy Nuw i ac at eich Duw chwithau.* Canys cyhyd ag na bo cywilydd ganddo ef i'n galw ni yn frodyr, nid cywilydd gan DDUW ei alw yn DDUW i ni; a'i waith ef yn dwyn ymlaen ein hachos ni o flaen yr orſedd yn ei enw ei hun a ninnau yn y dull hyn; *Wele fi a'r plant a roddodd Duw i mi*, ſydd annogaeth ddigon cref i heddwch ei Dad â ni, ac i droi ei wyneb pryd tirion tu ag attom, fel ar y tu arall, pan elom ni yn afreolus, a throi yn blant gwrthryſelgar; ni all un cerydd fod yn fwy cymmelliadol nag un annogaeth yn fwy ei grym (os oes un gwreichionen o ras ynom) i wneud i ni daflu lawr ein harfau ac ildio, na hyn, *Deut.* xxxii. 6. *Ai hyn a delwch i'r Arglwydd, bobl ynfyd ac angall? onid efe yw dy Dad a'th Brynwr; ac a'th Brynodd nid â phethau llygredig, megis âg arian ac aur, ond â gwerthfawr Waed ei Fab ei hun:* 1 Pedr i. 18. Pwy mor beryglus yw bod allan o heddwch â DUW, ſe ddengus hen *Eli* trwy y rheſwm hwn, 1 *Sam.* ii. 25. "Os gwr a becha yn erbyn gwr y Swyddogion a'i barnant ef; ond os yn erbyn yr ARGLWYDD y pecha gwr, pwy a eiriol droſto ef?" A *Job* a ddywed o'i flaen ef, *Job* ix. 32, 33. "Canys nid gwr fel myfi yw ef, fel yr attebwn iddo, ac y delom ynghyd i farn; nid oes rhyngom ni Ddyddiwr a all oſod ei law arnom ein dau." Os y pwngc cyffredinol hwn ni's goddef

un ymholfa, yna yr oeddem ni mewn cyflwr truenus; ac achos gennym i wylo rhagor nag oedd gan *Ioan* yn y Datguddiad, Pen. v. adn. 3, 4. *pan nad oedd neb yn y nefoedd, nag ar y ddaear, na than y ddaear yn gallu agoryd y llyfr ag oedd ef yn ei weled yn nwylaw yr hwn oedd yn eiſtedd ar yr orſedd faingc; na 'chwaith edrycb arno.* Ond fel y dymmunwyd yno ar *Ioan i attal wylo am fod Llew o lwyth Juda gwreiddyn Dafydd, wedi gorchfygu i agor y llyfr, ac i ddattod ei ſaith ſel ef;* felly mae ef ei hun mewn man arall yn rhoddi yr un-rhyw gyſur i bawb o honom yn neillduol; *Os pecha neb, y mae gennym Eiriolwr gyd â'r Tad, Ieſu Griſt y Cyfiawn: ac Efe yw y Iawn tros ein pechodau ni:* ac nid dros yr eiddo ni yn unig, ond hefyd dros bechodau yr holl fyd. "Canys un DUW ſydd, felly un Cyfryngwr rhwng DUW a Dynion, y DYN CRIST IESU; yr hwn a roddes ei hun yn Bridwerth dros bawb: Ac ynghyflawniad o'i Swydd hon o Gyfryngdod, fel unig ganol-wr addas i gymmeryd i fynu yr ymrafael hwn, rhaid oedd iddo oſod ei law cyſtal ar DDUW yr ochor y troſeddwyd cymmaint i'w erbyn, ac ar ddyn yr ochor mor ynfyd a droſeddodd.

Mewn pethau ſy'n perthyn i DDUW Offeiriadaeth ein CYFRYNGWR ſydd yn cael ei arferyd: *Canys pob Arch-offeiriad wedi ei gymmeryd o blith dynion a oſodir dros ddynion yn y pethau ſydd tu ag at Dduw:* Rhannau ei Swydd Offeiriadol ydynt ddau. Iawn, ac Eiriolaeth. Y cyntaf o ba rai ſydd yn roddi boddlonrwydd i Gyfiawnder DUW; a'r olaf ſydd yn taer ymbil ei Drugaredd am gymmhwyſiad o'r fraint hon i blant DUW yn neillduol. Trwy ba ffordd mae yn dyfod i ben fod DUW wrth ddangos Trugaredd i'r hwn yr Ewyllyſio ddangos Trugaredd, etto heb fod yn Golledwr o ran ei Gyfiawnder; ond bod yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb ſydd o ffydd IESU. Trwy rinwedd ei Eiriolaeth, ein Cyfryngwr ſydd yn ymddangos ym Mhreſennoldeb DUW troſom ni; ac yn gwneud deiſyfiadau troſom. I'r perwyl hyn y mae'r Apoſtol yn y IV. o'r Hebreaid yn ſylwi yn

gyntaf.

gyntaf, "Fod gennym Arch-Offeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r Nefoedd, IESU MAB DUW;" *adn.* 14. yn ail, "Ac nid oes i ni Arch-Offeiriad heb fedru cyd-ddioddef â'n gwendidau ni; ond wedi ei demtio ymhob peth yr un ffunud â ninnau, etto heb bechod," *adn.* 15. rhwng bod gennym y fath, ac heb fod gennym y fath Eiriolwr, rhwng ei uwchder ef mewn perthynas i un nattur, a'i iſelrwydd mewn perthynas i'r llall, mae holl ddiddanwch y pechadur tlawd yn ſefyll. Rhaid ei fod ef y fath un ffyddlon ag a gymmero ein hachos ni at ei galon; ac am hynny y dylai efe fod "Ymhob peth yn gyffelyb i'w frodyr, fel y byddai yn Arch-Offeiriad Trugarog a Ffyddlon.———

Ymha berthynas fel yr oedd yn angenrheidiol iddo i gyfrannogi o'n cnawd a'n gwaed ni, fel y gallai ymddwyn yn dyner ac yn ſerchog at ei frodyr; felly hefyd tu ag at iddo gael y fath gais ag y mae yn ei ymoſyn, angen oedd ei fod ef yn anwyl iawn gan DDUW y Tad, a bod cymmaint o hawl ganddo ynddo ag y gallai fod yn waſtadol yn ſicr o gael ei atteb ymha beth bynnag a ofynai. nid oedd le gan hynny, ei fod ef neb arall ond yr hwn am ba un y tyſtiodd y Tad o'r nef, *Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn i'm llwyr Foddlonwyd.* Addas oedd fod ein Heiriolwr yn ddyn fel ni ein hunain; fel y gallom ddyfod yn ëon atto ef, ac y caffom ras yn gymmorth cyfaiſferol. Addas oedd ei fod ef yn DDUW, fel y gallai yn ëon fyned at y Tad heb ddim digalondid; fel un yn gyfaill iddo, ac yn ogyfuwch. Ond y fath oedd Cariad DUW at Gyfiawnder a chaſineb i bechod, fel na's mynnai ef ddim i'w Gyfiawnder gael ei lyngcu i fynu mewn trugaredd, nag i bechod gael ei faddeu heb wneuthur adferiad addas. Am hynny nid oedd le i'n Cyfryngwr ddiſgwyl mynnu pardwn yſgafn i ni, heb ddim ond hynny: Ond rhaid oedd iddo fod yn lawn tros ein pechodau ni, a'n gwared ni trwy Dâl a phwrcas: Ac felly nid yn unig fod yn feiſtr o'n deiſyfiadau ni i erfyn ar yr ARGLWYDD troſom, ond hefyd cym-

meryd arno ei hunan ran eiriolwr i bledio fod hollol Iawn wedi cael ei wneuthur ganddo ei hun fel ein Meichiau ni, am yr holl ddyled ag oeddem ni mewn un modd yn cael ein cyhuddo o'u plegid. Yn awr, y taliad ag y ddarfu i'n Meichiau ni rwymo ei hunan i gyflawni yn ein lle ni oedd am ddyled dwbl: Y Prif [*principal*] a'r achlyſyrol, [*acceſſory*;] y prif, a'r pennaf ddyled oedd ufudd-dod i Gyfraith ſancteiddiolaf Duw: yr hyn oedd dyn yn rhwym i dalu fel tyrnged waſtadol i'w Greawdwr, er pe buaſai heb bechu erioed; ond yn awr wedi dyfod trwy ei fai ei hun yn an-alluog; ni's gall dalu yn y meſur lleiaf: Ei Feichiau, gan hynny, wedi ei oſod i roi Iawn yn ei le, nid oes neb a ellir ei gael yn addas i fyned dan y fath daledigaeth, ond efe yr hwn ſydd yn Ddduw ac yn Ddyn.

Rhaid ei fod ef yn ddyn; canys dyn oedd yr un a rwymwyd wrth Erthyglau'r Cyfammod cyntaf i ufudd-dod; ac angen oedd, fel "Mai trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid, felly hefyd trwy ufudd-dod un Dyn y gwnaethpwyd llawer yn gyfiawn;" etto pe buaſai ein Cyfryngwr ni ond Duw yn unig, ni's gallaſai roi ufudd-dod (y Duwdod ſydd rydd o bob mâth o ddaroſtyngiad) a phe buaſai ef ond dyn yn unig, er ei fod mor berffaith ag Adda yn ei ddiniweidrwydd, neu yr angylion eu hunain; etto os cawſai ei adael iddo ei hun ymhlith holl brofedigaethau Satan a'r byd drygionus hwn, efe fuaſai dueddol o gwympo fel hwythau; neu ynte, os daliaſai i fynu fel yr angylion etholedig, buaſai hynny yn cael ei gyfri i ras a llafur un arall; lle mae rhoi Iawn berffaith i gyfiawnder Duw yw yr unig beth a ofynnir yn yr achos hyn. Ond yn awr, gan ei fod ef yn Ddduw cyſtal a bod yn ddyn, efe trwy ei Yſpryd trag'wyddol ei hunan a gadwodd ei hun yn ddi-frycheulyd, gan gyflwyno ufudd-dod llawer iawn mwy boddlongar gan Ddduw nag oedd boſibl i gael ei gyflawni gan Adda yn ei ddiniweidrwydd. Canys heb law yr anfeidrol wahaniaeth ag

oedd

oedd rhwng eu perſonau hwynt ill dau; yr hyn ſydd yn gwneuthur gweithrediadau y naill ymhell tu hwnt i bob cymmariaeth i ragori ar werth a phris gweithrediadau y llall: Ni a wyddom nad oedd Adda yn abl gwneud ei hunan yn ſanctaidd; ond y ſancteiddrwydd oedd ganddo a dderbyniodd ef oddi wrth yr hwn a'i creodd ef ar ei ddelw ei hun: felly fel pa ufuddddod bynnag a gyflawnodd Adda, ni fuaſai DUW ond cael bwytta o ffrwyth y winllan a blannodd ef ei hun; ac o'i eiddo ei hun yr oedd ef yn cael y cwbl a allaſid roi iddo: Ond CRIST ei hun a Sancteiddiodd y nattur ddynol honno, yr hon a gymmerodd; ar ol ei ymadrodd ei hun, *Ioan* xvii. 19. "Er eu mwyn hwy yr wyf yn Sancteiddio fy hun;" ac felly o'i feddiant neillduol ei hun y tynnodd ef allan y tryforau gwerthfawr hynny o ufudd-dod ſanctaidd, yr hwn yn Iawn am ein dyled ni a welodd ef fod yn dda i gyflwyno i'w Dad. Hefyd pe buaſai Adda yn gwneud pob peth a orchymynwyd iddo; fe fuaſai, er hynny, yn rhaid iddo ddywedyd, "Gwas anfuddiol ydwyf fi, mi wnes yr hyn oedd ddyledus arnaf i wneuthur." Lle yn yr ufudd-dod ewyllyſgar yr ymoſtyngodd CRIST ei hun iddo, yr oedd yr achos yn ſefyll yn llwyr wrthwyneb. Gwir yw, os cymmerwn ef yn ei nattur ddynol, mae ei Dad yn fwy nag ef, a Gwas ei Dad yw ef; etto am iddo ef ddweud, a dweud gyd â'r ſicrwydd mwyaf, fod DUW yn Dad iddo; yr Iuddewon a dynnaſant ganlyniad cywir oddi yma ei fod ef trwy hynny, "yn gwneud ei hun gogyfuwch â DUW; ac ARGLWYDD y lluoedd ei hun ſy'n ei gyhoeddi ef, "Ei fod y Gwr hynny ei Gyfaill." Gan ei fod of, gan hynny, y fath un, ac mor oruchel, wedi cael ei eni; gallaſai trwy ragorfraint ei enedigaeth gleimio rhyddhad oddi wrth y gwaſanaeth cyffredin, wrth ba un y mae pob rhai eraill yn rhwym: a thrwy ei fod yn Fab Brenin i gael rhyddhau ei hun oddi wrth dalu y dyrnged hynny ag ſydd i'w ddiſgwyl ar law dieithraid. Pan dygodd y Tad ei gyntafanedig hwn i'r byd, mae

yn dywedyd, Addoled holl angylion DUW EF: Ac mor gynted bynnag ag y darfu i'r MAB ddyrchafu ein nattur ni i'r radd uwchaf o anrhydedd, trwy ei chymmeryd hi mewn i undeb â'i Berſon Dwyfol, y nattur hynny wedi ei chymmeryd hi fel hyn, oedd deilwng i gael ei choroni â phob gogoniant ac anrhydedd; ac efe yn y nattur honno a allaſai y pryd hynny oſod ei hun i lawr ar ddeheulaw Gorſeddfainge DUW; heb fod yn rhwym i un daroſtyngiad arall fwy nag yn awr, neu fwy nag a fydd etto ar ol hyn, pan ar ol diwedd y byd hwn y bydd iddo roi y Deyrnas i fynu i DDUW a'r TAD. Canys y pryd hynny hefyd mewn perthynas i'r nattur a gymmerodd ef, fe fydd ddaroſtyngedig i'r hwn a oſododd bob peth tan ei draed Ef.

Fel hyn MAB DUW, pe buaſai ond goſalu am ei bethau ei hun yn unig allaſai yn union gyrch gyrraedd at y llawenydd a oſodwyd o'i flaen ef: ond wrth edrych ar bethau rhai eraill, 'Fe ddewiſodd ddyfod iddo trwy ffordd boenus a ſiwrnau flinedig, heb gleimio hawl i ragorfraint Mab, ond cymmeryd arno agwedd gwas gwael. Am ba achos yn nyddiau ei gnawd ni waſanaethodd ef fel Tywyſog anrhydeddus yn lluoedd yr ARGLWYDD, ond fel milwr cyffredin, Efe a ddibriſiodd ei hun, ac megis tros amſer, Efe a wacäodd ei hun o'i uchel-rwyſg a'i anrhydedd; "Efe a ddaroſtyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau;" gan fod yn foddlon holl ddyddiau ei Einioes i'w wneuthur tan y ddeddf: ïe, mor belled fel danfonwyd ef ynghyffelybiaeth cnawd pechadurus; felly ni's diyſtyrodd i ymddaroſtwng ei hun i'r ddeddf, yr hon oedd yn perthyn yn briodol i gnawd pechadurus. Ac am hynny, er bod Enwaediad wrth bob addaſrwydd i'w gymhwyſo yn unig at y rhai ag ſydd yn feirw yn eu pechodau, a dienwaediad eu cnawd; etto Efe, yn yr hwn nid oedd corph pechodau y cnawd i'w marweiddio, a ddaroſtyngodd ei hun er hynny oll i hynny: nid yn unig i dyſtio ei undeb â theidau yr hên Deſtament; ond hefyd trwy y moddion hyn i gyflwyno

i'w

i'w Dad Fond wedi ei ſelio â'i Waed ei hun, trwy ba un y gwnaeth efe ei hun yn ein lle ni yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf. "Canys yr wyf fi (medd yr Apoſtol, *Gal.* v. 3.) yn tyſtio am bob un a Enwaedir, ei fod ef yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf."

Felly hefyd bedydd ſydd yn perthyn yn briodol i'r fath rai ag ſydd wedi eu difwyno, ac arnynt eiſiau cael golchi ymaith eu pechodau: Ac am hynny, pan yr oedd holl dîr *Juda*, ac o amgylch *Jeruſalem* yn myned allan at *Ioan*, hwy fedyddiwyd oll ganddo yn afon yr Iorddonen gan gyffeſu eu pechodau. Ymhlith eraill ein IACHAWDWR hefyd; ond Ioan yn yſtyried fod arno ef eiſiau cael ei fedyddio gan GRIST, ac nad oedd ar GRIST ddim eiſiau cael ei fedyddio ganddo ef, a nacäodd wneuthur y weithred; megis peth hollol an-addas i gyflwr OEN di-frycheulyd DUW, yr hwn ag oedd i gymmeryd ymaith bechodau'r byd. Etto ein Cyfryngwr a ddaroſtyngodd ei hun i'r ordinhad hon o eiddo DUW hefyd: nid yn unig i dyſtio ei gymmundeb â Chriſt'nogrwydd y Teſtament newydd, ond yn bennaf (yr hyn yw y rheſwm a roi'r ganddo ef ei hun) "Am mai gweddus oedd iddo fe hyn i gyflawni pob Cyfiawnder," i ba un yr oedd y dyn gwaelaf wedi ei rwymo iddo, yn nyddiau ei bererindod. (Yr hyn oedd fwy nag oedd angen arno i wneud, pe buaſai yn unig ond gwneud pethau ag oedd yn perthyn iddo ei hun:) Y gweithredoedd a gyflawnodd ef oeddent wir weithredoedd tros ben, [*Supererogation*] y rhai oedd raid eu dodi at y eu cyfri nhwy dyled pa rai a gymmerodd ef arno i dalu; a chan iddynt gael eu cyflawni gan Berſon MAB DUW rhaid oedd iddynt yn yr yſtyr hynny fod, nid yn unig o gogyfuwch, ond hefyd o anfeidrol uwch bris nag ufudd-dod Adda a'i holl hiliogaeth pe buaſent yn aros yn eu diniweidrwydd, a phara hyd yr awr hon yn gwaſanaethu DUW bob munud ddydd a nos. Ac felhyn darfu i'n Cyfryngwr roi Iawn i Gyfiawnder e Dad am ein prif ddyled o an-ufudd-dod, â "meſu da dwyſedig, wedi ei yſgwyd, ac yn myned troſodd.

On

Ond heb law hyn, yr oeddem ni yn ofynol am ddyled arall, yr hwn y darfu i ni redeg iddo trwy fethu atteb cyfraith, a thynnu arnom ein hunain, mewn ffordd o fforffet neu goft. Canys fel y mae ufudd-dod yn wir-ddyled, a gweifion Duw ymerthynas iddo, yn wir-ddyled-wyr; felly hefyd mae pechod yn ddyled, a phechaduriaid yn ddyled-wyr mewn perthynas i'r gofp ddyledus am fyrdra atteb cyfraith; ac fel nad yw taliad o'r dyled, yr hwn fy'n dyfod dan enw fforffet neu gofp, ddim yn rhyddhau y deiliad rhag talu ei ardreth neu rent blynyddol ar ol llaw, yr hwn o hono ei hun fyddai ddyledus, pe na bai dim torriad cyfraith yn bod; felly nid yw taliad dyledus o'r ardreth, neu y rhent blynyddol ar ol torriad cyfraith gael ei wneuthur ddim yn iawn digonol am y gofp neu'r fforffeit ag fydd eifoes wedi rhedeg. Am hynny ein Meichiau, yr hwn fydd wedi cymmeryd ein holl ddyled arno ei hun, fel y gwnaeth ef daliad am y naill trwy ufudd-dod gweithredol, felly rhaid oedd iddo wneud lawn am y llall trwy ufudd-dod dioddefol: *Rhaid oedd iddo yn gymtaf ddioddef, ac yno myned i mewn i'w ogoniant; canys gweddus oedd iddo ef, o herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth, wedi iddo ddwyn meibion lawer i ogoniant, berffeithio Tywyfog eu Iachawdwriaeth hwy* (hynny yw, bod yn gwbl hawr perffaith o'r gwaith a gymmerodd arno) *trwy ddioddefiadau.*

Mae y Duwdod o'r fath perffeithrwydd anfeidrol hynny, fel nad yw bofibl iddo fod yn ddaroftyngedig i ddioddef: ac am hynny, efe nad oedd ganddo un nattur ond y Duwdod, ni's gallafai dalu y fath ddyled a hwn; taliad o ba un oedd yn gynhwyfedig mewn dioddef a marw. Addas oedd hefyd i gyfiawnder Duw i gael ei foddloni yn y nattur hynny ag a drofeddodd; ac i'r un nattur i ddioddef y gofp ag a wnaeth y trofedd. *O blegid hynny, gan fod y plant yn gyfrannogion o gig a gwaed; ymtau hefyd yr un modd, fu gyfrannog o'r un pethau; fel trwy farwolaeth y dinyftrai yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo, hynny yw*

diafol

diafol. Ac y gwaredai hwynt y rhai trwy ofn marwolaeth oeddent tros eu holl fywyd tan gaethiwed. Y fath, ac mor fawr oedd caraid Duw'r Tad attom ni, *fel nad arbedodd ei Fab ei hun, ond a'i traddododd ef trofom ni oll*; ac mor uchel oedd cariad Mab Duw at blant dynion, fel na's dymmunodd gael ei arbed; ond yn hytrach nag y byddent i orwedd tan awdurdod pechod, oedd o hono ei hun yn eithaf boddlon i ddioddef angau troftynt; yr hyn, wrth wel'd yn y nattur anfeidrol hynny, yr hon a dderbyniodd ef trwy genhedliad trag'wyddol oddi wrth y Tad, na's gallafai ei wneuthur; efe fwriadodd yn yr amfer terfynedig i gymmeryd iddo ei hun Fam, ac o'i Sylwedd hi gymmeryd Corph wedi ei lunio iddo ei hun, ymha un y gallai fod yn ufudd i angau, ie angau'r groes, er ein prynedigaeth ni. Ac am hynny, pan y mae yn dyfod i'r byd 'fe ddywed wrth ei Dad; *Corph a gymhwyfaift i mi, wele yr ydwyf yn dyfod i wneuthur dy Ewyllys O fy Nuw*; trwy yr hwn ewyllys medd yr Apoftol, *yr ydym ni wedi ein fancteiddio trwy Offrymmiad Corph Iefu Grift un waith.* Fel hyn y gwelwn fod yn angenrheidiol tu ag at roi Iawn am y dyled hyn, fod ein Cyfryngwr ni yn ddyn; ond efe, yr hwn nad oedd ynddo ddim ond dyndod, oedd analluog i fyned trwy'r fath waith mawr; canys pe gallafid ffeindio dyn mor gyfiawn ag oedd *Adda* yn ei greadigaeth cyntaf, yr hwn fuafai fod i ddioddef tros drofedd eraill, ni's gallafai ei ddioddefiadau ef fod yn bofibl i roi Iawn tros un Enaid; dlawer llai buafent yn ddigonol Iawn tros yr holl aneirif luoedd hynny, y rhai oedd i'w *Prynu i Dduw o bob llwyth, iaith, a phobloedd, a chenedl.* Ac ni's gallafai un dyn nag angel fod yn abl i ddal allan, a bod cofp cyfattebol i ddioddefiadau di-ddiwedd yr holl bechaduriaid fy'n y byd ar un waith yn cael ei ofod arno. Ie, galluoedd ardderchog *ENAID* Crist ei hun, ar ba un yr oedd Yfpryd Nerth yn gorphwys, a gafodd ei figlo gymmaint yn y frwydr galed hon, fel y darfu iddo ef, yr hwn oedd y patrwn mwyaf cyflawn o bob Cader-

nid

i ymofidio a thriſtau yn ddirfawr, *A chyd â llefain cryf a dagrau i weddio am, os oedd boſibl i'r awr honno fyned oddi wrtho.* Am hynny, gan ſod y dyn hwn, i offrymmu un aberth tros bechodau tros fyth, a thu ag at loſgi yr aberth hynny, rhaid oedd iddo ddwyn, nid yn unig farwor ei gariad mor grŷf ag angau, ac mor boeth a'r tân ag ſydd a'i fflammau fwyaf angherddol, ond rhaid oedd iddo 'chwanegu at hynny y lloſgfeydd trag'wyddol hynny hefyd, ſef fflammau ei ogonedduſaf Dduwdod; ac am hynny, rhaid oedd iddo offrymmu ei hun yn ddi-frycheulyd i DDUW trwy yr Yſpryd trag'wyddol, fel trwy hynny y gallai gael i ni drag'wyddol ryddhad. Y Gwaed, trwy ba un y mae'r Eglwys yn cael ei Phwrcaſu, ſydd raid ſod yn Waed DUW ei hun, *Act.* xx. 28——1 *Cor.* ii. 8. *Act.* iii. 15. *Eſa.* liii. 8. Ac i'r diben hynny rhaid i ARGLWYDD y gogoniant gael ei Groes-hoelio, Tywyſog ac Awdwr Bywyd i gael ei ladd; eſe, cenhedliad trag'wyddol pa un nid oes un dyn ai mynega, ei dorri ymaith o dîr y rhai byw; a'r Gwr ag ſydd gyfaill i DDUW ei hunan i gael fel hyn ei daro; yn ol yr hyn a rag-ddywedodd DUW ei hun trwy ei Brophwyd: *Deffro gleddyf yn erbyn fy Mugail, ac yn erbyn y gwr fy Nghyfaill, medd Arglwydd y lluoedd; tarro'r Bugail, a'r praidd a waſgerir.* Zec. xiii. 7. Yr ydym yn darllain fod pobl Iſrael yn edrych cymmaint ar ſywyd *Dafydd* eu brenin ag yr oeddent yn ei gyfrif ef yn fwy nâ deng mîl o honynt hwy eu hunain; pa fodd gan hynny y priſiwn ni fywyd ARGLWYDD *Dafydd*, yr hwn yw y Bendigedig, a'r unig Dywyſog, Brenin y brenhinoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi.

Ein nattur ni yn wir oedd a ddioddefodd, ond efe, yr hwn a ddioddefodd yn y nattur hynny, *ſydd uwchlaw pawb yn Dduw bendigedig yn oes oeſoedd*; ac i'r cyfryw Berſon i ddioddef ond un awr, ſydd fwy nâ phe buaſai yr holl berſonau eraill yn dioddef ddeng mîl o filiynau o flynyddoedd. Ond gadewch eilwaith ſod bywyd rhyw ddyn neillduol arall yn ogyfuwch â

holl

holl ſywydau dynol-ryw; etto gofod i lawr y bywyd hwnnw ni fyddai digonol i wneuthur y weithred, oni fyddai ganddo ef, yr hwn oedd a gallu ganddo i roi ei fywyd i lawr, fod wedi'n ganddo allu i'w gymmeryd i fynu; canys cael ei gadw o hyd yn y carchar hwnnw o ba un nid oes dyfod allan heb dalu yr hatling eithaf, yw gorwedd fyth tan gondemniad, ac i roi fynu yr hawl o'r taliad llawn hynny o'r dyled, tan ba un darfu i'n Meichiau ni ſefyll i fynu troſom ni. Ac am hynny mae'r Apoſtol ar y ſail hyn yn tynnu iawn ganlyniad, 1 *Cor.* xv. *Os Criſt nid'is cyfodedd, ofer yw ein ffydd ni, yr y'm ni etto yn aros yn ein pechodau:* Ac yn ganlynol fel ag oedd raid iddo gael ei draddodi i farwolaeth tros ein camweddau, felly rhaid oedd iddo drachefn gyfodi er ein cyfiawnhad. Ië, ein IACHAWDWR ei hun gan ei fod yn gwybod yn hollol pa beth oedd i fyned tano er ein mwyn ni, a ddywedodd wrthym ymlaen-llaw, *y byddai'y Diddanydd yr hwn a anfonai ef attom i argyhoeddi'r byd*, h. y. rhoi cyfiawn foddlondeb i gydwybodau plant dynion vnghylch y Cyfiawnder trag'wyddol ag oedd i'w gael ei ddwyn i mewn ganddo ef ar y Sylfaen unig hon; *Am fy mod i yn myned at fy Nhad, ac na'm gwelwch i mwy.* O ran pe buaſai efe yn torri'r carchar, ac yn dihengyd, a bod taliad y dyled ag a gymmerodd ef fel ein Meichiau ni arno ei hun heb dalu, ni a fuaſem yn cael ei weled yma drachefn, ni fuaſai'r Nefoedd yn dal mo hono, mwy nag y daliodd Paradwys Adda ar ol iddo gwympo i ddyled DUW a'i ddigofaint. Ond ein IACHAWDWR, am iddo godi ei hun oddi wrth y meirw, gan *breſentio* ei hun yn y Nefoedd o'i flaen ef, i ba un yr oedd y dyled yn ddyledus, a chadw ei ſefyllfa yno, rhoddodd trwy hynny brawf da o'i fod ef yn awr yn ŵr rhydd, a'i fod wedi talu y dyled hynny oedd arnom ni, am ba un yr oedd ef wedi ei ddodi yngharchar.

A hyn yw'r Dyſtiolaeth ſydd gennym ni i ddangos am y Cyfiawnder hynny trwy ba un yr y'm ni yn ſefyll yn gyfiawn ger bron DUW; yn ol yr hyn a

ddywedodd yr Apoſtol; *Rhuf.* viii. 33. *Pwy a oſod ddim yn erbyn Etholedigion Duw? Duw yw'r hwn ſy'n cyfiawnhau, pwy yw yr hwn ſydd yn condemnio? Criſt o ſu farw, ïe, yn bytrach a gyfodwyd drachefn, yr hwn hefyd ſydd yn eiſtedd ar ddeheulaw Duw, yr hwn hefyd ſydd yn Eiriol troſom ni.* Yn awr er y gall rhyw ddyn cyffredin yn ddigon hawdd ymadael â'i fywyd, etto nid yw yn ei allu ei gymmeryd ef i fynu drachefn wrth ei Ewyllys a'i bleſer ei hun; ond efe yr hwn ſydd i wneud y tro troſom ni, ſydd raid iddo fod yn abl i ddweud fel ein Iesu ni, *Ioan* x. 17, 18. *Yr wyf fi yn rhoi fy Einioes i lawr fel y cymmerwyf hi drachefn, nid oes neb yn ei dwyn oddi arnaf fi; ond myfi ſydd yn ei dodi i lawr o honof fy hun; mae gennyf feddiant i'w dodi hi i lawr, a chennyf feddiant i'w chymmeryd hi drachefn.* Ac mewn lle arall, *Dinyſtriwch y Deml hon, ac mewn tridiau yr adeiladaf fi hi,* eb efe wrth yr Iuddewon, gan ddweud am Deml ei Gorph. Nattur ddynol am hynny oedd raid iddo gael ag a allaſai fod yn ddaroſtyngedig i ddioddef a marw; ond un-waith wedi marw ni's gallaſai efe trwy ei nerth ei hunan, yr hyn oedd y peth llwyr angenrheidiol yma, i gyfodi drachefn, oni buaſai iddo *Eglurhau ei hunan yn Fab Duw mewn gallu trwy yr adgyfodiad oddi wrth y meirw.* Y dyndod a allaſai ddioddef, ond nid gorchfygu chwerwder marwolaeth: y Duwdod ni's gallaſai ddioddef dim ond gorchfygu'r cwbl. Rhaid am hynny oedd ei fod ef ag oedd i ddioddef, ac i orchfygu troſom ni, yn gyfrannog o ddwy nattur; fel wedi ei roddi i farwolaeth yn y cnawd, y gallai ef fywhau ei hun trwy ei Yſpryd ei hun.

Ac yn awr yr ydym ni yn dyfod i'r rhan hynny o Gyfryngdod Criſt ag ſydd yn perthyn i droſglwyddiad o'r Pwrcas prynedig yma i feibion dynion. Pwrcas pris-fawr yn wir yr hwn nad oedd i'w brynu â dim llai pris nâ Gwaed Mab Duw. Ond pa beth a leſaſai pryniad dieithr ddyn i ni? Neu pa beth a fuaſem ni gwell er hynny oll, oni allaſem wneuthur yn oleu ein perthynas ni i'r Pwrcaswr; neu ddangos

ngos rhyw hawl dda, trwy ba un y gallaſem gleimio tith yn ei Bwrcas Ef? Yn awr dyma y drefn ag oedd yn yr hên amferoedd yn *Iſrael* ynghylch pryniadau; mai iddo ef, yr hwn oedd neſaf car y perthynai yr hawl o fod yn brynwr etiſeddiaeth, *Ruth* iii. 12. a *Job* cyn hynny a adawodd broffes ogoneddus o'i ffydd i gofiadwriaeth barhäol ei holl biliogaeth, *Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y ſaif yn y diwedd ar y ddaear; ac er ar ol fy ngnawd i bryfed ddifetha'r corph hwn, etto caf weled Duw yn fy ngnawd, yr hwn a gaf fi i'm fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall*, troſwyf fi. Trwy ba beth gallwn yn hawdd ddyall, y byddai ei Brynwr ef a ninnau yn DDUW anweledig, ac etto yn y Cnawd a gymmerai Ef arno yn weledig, hyd yn oed, i lygaid corphorol y rhei'ny a Brynai Efe. Canys pe na's cymmeraſai ein cnawd ni arno, pa fodd y buaſem ni o'i Waed ef, neu y cleimiaſem un perthynas iddo? Ac oni buaſai i'r Duwdod gael ei an-wahanol gyſylltu â'r Cnawd hynny trwy undeb Perſonol, pa fodd y buaſai Efe yn hynny, yn cael ei gyfrif yn neſaf o berthynas i ni?

Tu ag at eglurhau yn well y rheſwm olaf hwn, ni allwn alw i gof y geiriau hynny o eiddo'r Apoſtol, 1 *Cor.* xv. *Y dyn cyntaf o'r ddaear yn ddaearol; yr ail Dyn yr Arglwydd o'r nef*; lle er fod amryw o filoynau o ddynion yn y byd rhwng y ddau hyn, etto gwelwn fod ein Prynwr yn cael ei gyfrif *yr ail Ddyn*. A pha ham? Ond bod y ddau hyn yr unig ddynion a ellid eu cyfri y gwraidd oddi wrth ba rai y darfu i holl ddynol-ryw gael eu bod a'u dechreuad. Canys fel y mae pob dynion yn y byd trwy ddeſgyniad gwael yn tynnu eu dechreuad cyntaf oddi wrth y dyn cyntaf, Adda; felly mewn perthynas i awdurdod mwy digyfrwng o effeithio, maent yn addef eu hanfod oddi wrth yr ail *Adda*, fel y mae ef yr ARGLWYDD o'r nef. Hyn ddywed DUW wrth *Jeremi*, *Cyn i mi dy lunio yn y grôth mi a'th adnabum*; a hyn yw addefiad *Dafydd* o'i ran ef; *Dy ddwylaw di a'm gwnaethant, ac a'm lluniaſant*; *toaiſt fi ynghrôth fy mam: ti a'm tyn-*

noiſt

naiſt o grôth ſy mam. Sal. vii. 6. A *Job* a ddywaid o'i ran yntef, *Job* x. 8, 11. *Dy ddwylaw a'm gweithiaſant, ac a'm cyd-luniaſant o amgylch; ti a'm gwiſgaiſt i â chroen, ac â chnawd, ti a'm diffynaiſt i âg eſgyrn ac â giau.* A'r Apoſtol a ddywed trioſom nii i gyd; *Ynddo ef yr ydym ni yn byw yn ſymmud ac yn bod*; yr hwn ſy'n tynnu canlyniad ar hynny; *Mai ei hiliogaeth ef ydym ni hefyd; ac nad yw ef bell oddi wrth un o honom.* Hyn ſydd i'w addef fel y gwirionedd mwyaf cywir (er gwrth'nebiadau gwrth-ddywed-wyr) fod Duw yn fwy di-gyfrwng yn cyd-weithio at genhedliad a phob yſgogiadiau eraill o eiddo'r creadur, nag y mae, neu nag y gall un rhyw weithiwr arall. Ac am hynny, *Os trwy gamwedd un y teyrnaſodd marwolaeth* trwy un; mwy o lawer y caiff y rhai ſydd yn derbyn llioſogrwydd o ras, ac o ddawn cyfiawnder deyrnaſu mewn bywyd trwy un Iesu Grist. Gan yſtyried fod yr ail Ddyn hwn, nid yn unig y ſath Bennaeth cyffredinol o'n holl fywydau ni ag oedd y cyntaf hwnnw, ac felly a all *repreſentio* ein perſonau ni i gyd yn gyffredin cyſtal ag yntau; ond y mae Ef yn Weithiwr mwy di-gyfrwng yn y cenhedliad o honom: nid fel y cyntaf, a chynnifer o genhedlaethau rhyngddo ef a ni, ond yn fwy agos i ni nâ neb, hyd yn oed ein henafiaid neſaf; ac yn y perthynas hynny yn gyfiawn yn cael ei gyfrif yn neſaf i ni o waed, ïe o'u blaen hwy i gyd.

Etto nid yw hyn hefyd yn ddigonol: ond hefyd y mae rhyw arall o genhedliad yn cael ei ofyn, am ba un rhaid i ni fod yn rhwymedig *i'r ail Ddyn yr Arglwydd o'r nef*, cyn y gallom gael hawl yn y Brynedigaeth hon a Bwrcaſwyd. Canys fel y mae euogrwydd troſedd y dyn cyntaf yn cael ei droſglwyddo i ni trwy ſoddion ein cenhedliad cnawdol; felly mae'n rhaid bod rhinwedd ufudd-dod yr ail Ddyn yn cael ei droſglwyddo i ni trwy adgenhedliad yſprydol. A hyn ſydd raid i'w oſod i lawr megis y gwirionedd mwyaf diamheuol: *Mai oddi eithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Ddiuw.* Ac y mae yn rhaid i bob un o'r fath

gael

gael ei eni, *nid o wŷdd, nag o ewyllys y cnawd, nag o ewyllys gwr, ond o Dduw.* Yn awr, fel nad oes ar ein Cyfryngwr mewn perthynas i fabwysiad meibion, yr hwn a Bwrcasodd efe i ni, gywilydd i'n galw yn frodyr; felly mewn perthynas i'r enedigaeth newydd hon, trwy ba un y mae ef yn ein cenhedlu ni i fywyd ysprydol a thrag'wyddol, nid yw yn diystyru ein harddel fel ei Blant. *Pan ofodo ef ei Fnaid yn aberth tros bechod, Efe a wêl ei hâd*, medd y Prophwyd Esaia, liii. *Ei hâd a'i gwasanaetha Ef, cyfrifir Ef i'r Arglwydd yn genhedlaeth*, medd ei *dad Dafydd* hefyd am dano Ef, Psal. xxii. 30. ac Ef ei hun a ddywed am dano ei hun, *Heb.* ii. 13. *Wele Fi a'r Plant a roddaist i mi*; oddi wrth pa beth y mae'r Apostol yn tynnu'r canlyniad hyn; *Yn gymmaint gan hyny a bod y plant yn gyfrannog o gig a gwaed, yntau hefyd ei hunan a fu gyfrannog o'r un pethau*; Heb. ii. 14. Efe ei hunan, h. y. Efe, yr hwn oedd yn DDUW gogyfuwoh â'r Tad; canys pwy arall a allasai wneud y creadur newydd hwn, ond yr un DUW ag sydd yn Greawdwr o bob peth? Nid llai gallu oedd angenrheidiol i wneuthur hyn, nag oedd ar y cyntaf i ddwyn pob peth allan o ddim: a'r Babanod newydd yma oedd raid iddynt gael eu geni o'r YSPRYD; pwy bedd a gallu ganddo i ddanfon yr Yspryd fel hyn i'w cenhedlu hwynt, ond y Tad a'r Mab, oddi wrth ba rai y mae Ef yn deilliaw? Yr un Yspryd bendigedig ag a luniodd Gorph naturiol ein HARGLWYDD yng-nghrôth y forwyn, ag oedd i lunio, i wneuthur o newydd bob aelod o'i Gorph dirgelaidd ef ar ei lun ac ar ei Ddelw ei hun.

Tu ag at agor ymhellach yr un-rhyw ddirgelwch (yr hwn oedd yn myned tu hwnt i amgyffred *Nicodemus*, er mai dysgawdwr yn *Israel* oedd) rhaid i ni ystyried, ymhob cenhedliad perffaith, fod y creadur ag sy'n cael ei genhedlu yn derbyn dau beth oddi wrth yr hwn a'i cenhedlodd ef; bywyd, a chyffelybrwydd. Portriadwr cywraint [*Limner* cywraint] a dynn ddelw ei fab ei hun at y bywyd, fel dywedwn;

etto am nad oes gwir fywyd yniddo, ond cyffelybrwydd yn unig, ni's gellir dweud ei fod ef yn genhedlwr o'r pictwr ſel ei fab. A rhai creaduriaid ſydd ag ſy'n cael eu magu allan o'r llaid neu ryw ſudreddi budr arall; y rhai, er bod ganddynt fywyd, etto am nad oes ganddynt gyſondeb o gyffelybrwydd â'r hyn y cymmerwyd hwynt allan o hono, hwy gyfrifir am hynny heb fod ganddynt ond cenhedliad an naturiol ac anrhefnus; lle yn ol iawn a naturiol genhedliad (y llall ſydd yn cael ei gyfrif yn enedigaeth anghenfilaidd ac yn gwyro oddi wrth hynny) pob creadur ſydd yn cenhedlu ei ryw. Yn awr ynghylch ein marwolaeth a'n bywyd yſprydol, ſyniwn ar yr ymadrodd hyn o eiddo'r Apoſtol, "Gan farnu o honom hyn, os bu un farw tros bawb, yna meirw oedd pawb; ac Efe a fu farw tros bawb, fel na fyddai y rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw troſtynt ac a gyfodwyd. Duw yr hwn ſydd gyfoethog o Drugaredd o henwydd ei fawr Gariad trwy yr hwn y Carodd Efe ni, ïe pan oeddem feirw mewn camweddau, a'n cyd-fywhäodd ni gyd â CHRIST. A chwithau pan oeddech feirw mewn camweddau a di-enwaediad eich cnawd a gyd-fywhäodd Efe gyd âg Ef, gan faddeu i chwi yr holl gamweddau." *Col.* ii. 13. "Myfi a groes-hoeliwyd gyd â CHRIST, ond byw ydwyf; etto nid myfi, ond CHRIST ſydd yn byw ynof fi; a'r bywyd, yr hwn yr ydwyf fi yn ei fyw yr awr hon yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd MAB DUW, yr hwn a'm carodd ac a'i dodes ei hun troſof fi." *Gal.* ii. 20. Oddi wrth ba bethau oll y gallwn yn hawdd gaſglu, pe bai ond trwy ufudd-dod a dioddefiadau dyn, a'i fod ond dyn, er mor berffaith bynnag; y feddyginiaeth fwyaf llwyddianus ag ellid feddwl am dani yn cael ei pharottoi tu ag at wella ein harchollion, etto ni fyddai'r cwbl o ddim lles a ninnau wedi ein cael yn feirw pan fyddai'r feddyginiaeth yn dyfod i'w dodi wrth ein harcholl. Ein Phyſygwr ni am hynny ſydd raid iddo fod, nid yn unig yn alluog i'n hadferu ni i iechyd,

iechyd, ond i fywyd ei hunan hefyd; yr hyn na's gall neb ei wneuthur ond y Tad, y Mab, a'r Yſpryd glan; *Un Duw yn fendigedig yn oes oeſoedd.* At ba achos y mae y rhannau hynny o Eiriau ein HARGLWYDD i gael eu hyſtyried hefyd; *Ioan* v. 26. "Canys megis y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan, felly y rhoddes i'r Mab hefyd ſod ganddo fywyd ynddo ei hun." *Ioan* vi. 57. Fel yr anfonodd y Tad byw fi, ac yr ydwyf fi yn byw trwy'r Tad; felly yr hwn ſy yn fy mwytta i, yntau a fydd byw trwof fi." *Adn* 51. "Myfi yw'r Bara bywiol a ddaeth i wared o'r Nef, os bwyttu neb o'r bara hwn, efe fydd byw yn dragywydd; a'r bara a roddaf fi yw fy Nghnawd i, yr hwn a roddaf fi tros fywyd y byd." Sylwedd pa ymadrodd ſydd yn fyrr yn gynhwyſedig yn y geiriau hyn o eiddo'r Apoſtol, 1 *Cor.* xv. *Yr Adda diweddaf a wnaethpwyd yn Yſpryd yn bywhau*: Rhaid ei fod Ef, gan hynny, yn *Adda*, ac yn berffaith Ddyn, fel y byddai ei Gnawd Ef yr hwn a roddwyd troſom ni ar y groes i gael ei wneuthur yn bibell i ddwyn bywyd i'r byd; ac yn Yſpryd yn bywhau. Ni's gallaſai Ef fod, oni buaſai ei fod Ef yn DDUW yn abl i wneuthur y Cnawd hynny yn offeryn effeithiol i fywyd trwy weithrediad ei fendigedig Yſpryd. Canys fel y mynegodd Ef ei hun, *yr Yſpryd ſydd yn bywhau*; hebddo *y cnawd nid yw yn lleſhau dim.*

Ynghylch y Pwngc o gyffelybrwydd a thebygolrwydd; yr y'm yn darllain am *Adda* ar ol ei gwymp, iddo *genhedlu mab ar ei lun ac ar ei ddelw ei hun*; ac yn gyffredinol cyſtal am y cenhedliad cnawdol ag un yſprydol, dyſgodd ein Iachawdwr i ni y wers hon; *Yr hyn a aned o'r cnawd ſydd gnawd, a'r hyn a aned o'r yſpryd ſydd yſpryd*: Ar yr hyn beth y mae'r Apoſtol yn gwneud y gymmariaeth hon rhwng y rhei'ny ag ſydd wedi eu geni o'r dyn cyntaf hwnnw, *yr hwn ſydd o'r ddaear yn ddaearol, ac o'r ail Ddyn, yr hwn yw yr Arglwydd o'r nef*; *fel y mae y daearol, felly y mae y rhai daearol hefyd*; *ac fel y mae y nefol, felly y mae y rhai nefol hefyd*; *ac megis y dygaſom ddelw y daearol, felly*

y dygwn ddelw y nefol hefyd. Ac ni gawn yn wir ar ol hyn ei dwyn hi mewn llawn berffeithrwydd; pan y b'o i'r ARGLWYDD IESU GRIST gyfnewid ein *Cyrph gwael ni, a'u gwneud yn gyffelyb i'w Gorph gogoneddus Ef; yn ol y nerthol weithrediad trwy yr hwn y dichon Efe ddaroſtwng pob peth iddo ei hun.* Ond y mae hefyd, y fath debygolrwydd yr ydys yn ei ofyn fod rhyngom ni â'r Dyn nefol hwnnw, fel y mae yn rhaid fod ein hymarweddiad ni yn y nefoedd, o ba le yr ydym yn diſgwyl yr Iachawdwr hwn; a bod yn rhaid i ni *ddodi heibio o ran, yr ymarweddiad cyntaf yr hên ddyn, yr hwn ſydd lygredig yn ol y chwantau twyllodrus, ac ymadnewyddu yn yſpryd ein meddwl, a gwiſgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir ſanctteiddrwydd.* Canys fel mewn un pwngc neillduol teuluaidd, dywedir *fod y gwr yn ddelw a gogoniant Duw, a'r wraig yn ogoniant y gwr; felly mewn dull mwy cyffredinol dywedir, bod Criſt yn ddelw Duw, ie yn ddiſgleirdeb ei ogoniant Ef, ac yn wir lun ei Berſon Ef, a ninnau yr un ffurf a'i ddelw Ef; fel y byddai Ef yn gyntaf-anedig ymhlith yr holl frodyr hynny,* y rhai yn yr yſtyr hyn ſy'n cael eu cyfri yn *ogoniant Criſt.* Yr ydym ni'n darllain yn y llyfr ſanctaidd i DDUW gymmeryd o'r Yſpryd ag oedd ar Moſes a'i roi i'r deg henafgwyr a thrugain; fel y gallent ddwyn beichiau y bobl gyd âg ef; ac na byddai raid iddo ef eu dwyn hwynt ei hunan fel o'r blaen. Fe allai, gan fod ei waith ef ei hun wedi lleihau, nad oedd y cymmhwyſderau ag adawyd yn ol iddo ef at lywodraethu, ddim yn hollol gymmaint ag oedd angenrheidrwydd ei waſanaeth ef o'r blaen yn goſyn eu bod; ac yn y ddull hynny, yr hyn a roddwyd i'w gynnorthwywyr ef ellid o boſibl ddweud iddo gael ei gymmeryd oddi wrtho. Ond yr y'm yn ſicr fod y peth yn llwyr wrthwyneb ynddo Ef, am ba un yr ydym yn ſôn; i ba un ni roddodd DUW fel hyn yr YSPRYD wrth feſur: ac am hynny, er bod cynnifer o filiynau o Gredinwyr yn feunyddiol yn derbyn o gynnorthwy Yſpryd IESU GRIST; etto nid yw y

Ffynnon

Ffynhon hynny yn cilio, nag mewn un dull yn cael ei diyſbyddu, na chyflawnder tryſor Gras un gronyn yn lleihau, nag yn treio; *Rhyngodd bodd i'r Tad i drigo o bob cyflawnder ynddo Ef; ac o'i gyflawnder Ef i ni oll dderbyn gras am ras.* Fel ag mewn cenhedliad naturiol, mae y fâth gyſondeb yn yr holl rannau rhwng y cenhedlwr a'r plentyn a genhedlir, fel nad oes un aelod i weled yn y tad nad yw yr un yn gyfattebol i'w gael yn y plentyn, er mewn llawer llai maintioli; felly y mae yn digwydd yn yſprydol, fod am bob gras ag ſydd yn y dull mwyaf ardderchog i gael yng NGHRIST; gras cyffelyb â ymddengus ym Mhlentyn DUW, er mai mewn llawer îs gradd. —— Cyffelybrwydd a chymmariaeth ſydd yn cael ei goſod allan gan y rheſymwyr yn debyg o ran rhywogaeth, nid o ran maintioli.

Rhaid i ni etto ei gymmeryd ymhellach at ein hyſtyriaeth, mai trwy ein bywhau ni fel hyn a'n cymhwyſo at ei ddelw ei hun; nid amcan CRIST oedd codi hâd iddo ei hun yn waſgaredig ac yn anrhefnus, "Ond i gaſglu ynghyd yn un Blant DUW y rhai a waſgarefid; ïe, ac i grynhoi ynghyd oll i un Pen trwyddo ei hun, hwynt hwy ag ſydd yn y nefoedd, a hwynt hwy ag ſydd ar y ddaear; fel megis ag yr oedd yn y babell; "Y llen oedd yn gwahanu rhwng y lle ſanctaidd, a'r lle Sanctaiddiolaf;" ond y llenni ag oedd yn eu gorchuddio hwy ill dau oedd wedi eu cyſylltu felly wrth eu gilydd â bachau, fel y byddai hi fyth yn un babell; felly yr Eglwys filwriaethus, a'r ogoneddus ag oedd yn cael eu cyſgodi trwy y rhei'ny, er eu bod hwy mor bell y naill oddi wrth y llall ag yw y nefoedd oddi wrth y ddaear, etto nid y'nt ond un Babell yng NGHRIST IESU, *Yn yr hwn y mae yr holl Adeilad wedi ei chymmwys gyd-gyſylltu yn cynyddu yn Deml ſanctaidd yn yr Arglwydd; ac yn yr hwn ei'n cyd-adeiladwyd yn Breſwylfod i Dduw trwy'r Yſpryd.*

Rhwymmyn yr undeb dirgelaidd hwn rhwng Chriſt a ni, fel y mynegwyd yn fwy helaeth o'r blaen, yw (ar ei ran Ef) yr Yſpryd hynny ag ſydd yn bywhau,

hau, yr hwn ſydd ynddo Ef fel y Pen, ac ſydd oddi yno yn tannu er bywyd yſprydol i'w holl aelodau Ef: ac o'n tu ninnau ffydd, yr hon yw y brif weithred o fywyd wedi ei gweithio yn y rhei'ny ag a ddyſgwyd i fedru amgyffred trwy yr un-rhyw Yſpryd. Dau beth y'nt ſydd raid cyfaddef eu bod o'r fath nattur oruchel nad oedd boſibl i neb i rwymo ynghyd â'r cyfryw reffynnau y fath Gorph rhyfeddol, ond Efe, yr hwn ag oedd yn Dduw holl-alluog. Ac am hynny, er y gallwn ddych'mygu y gallem gael y fath ddyn ag a allaſai gyflawni'r Gyfraith troſom, dioddef marwolaeth ddyledus am ein camwedd, a'i orchfygu, ïe, ufudd-dod a dioddefiadau pa un fuaſai o'r fath werthfawrogrwydd ag a fuaſai yn ddigonol er prynedigaeth yr holl fyd: etto ni fuaſai hyn yn effeithol y'n gwneud ni i fyw trwy ffydd, oni fuaſai y dyn hwnnw yn alluog i ddanfon Yspryd Duw i gymmhwyſo yr un-rhyw attom ni; yr hyn na's gallaſai un dyn ac ef ond dyn yn unig, nag un creadur arall ei wneud; felly am ffydd. fe'n dyſgir gan *Paul* mai gweithrediad Duw yw hi, a gwaith ei allu ef yw hi, ïe o'r un gallu hwnnw ag a gododd Grist ei hun oddi wrth y meirw. Yr hyn yw fylfaen y weddi honno o'i eiddo ef, *Eph.* i. 19, 20,—— am i lygaid ein meddyliau ni gael eu goleuo "fel y gallom wybod beth yw rhagorol fawredd ei Nerth Ef tu ag attom ni y rhai ydym yn Credu yn ol gweithrediad nerth ei Gadernid Ef, yr hon a weithredodd efe yng Nghrist pan y cyfododd Efe Ef o feirw; ac a'i goſododd Ef i eiſtedd ar ei ddeheulaw ei hun yn y nefolion leoedd; goruwch pob tywyſogaeth, ac awdurdod, a gallu, ac arglwyddiaeth, a phob enw a enwir, nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn yr hwn a ddaw: ac a ddaroſtyngodd bob peth tan ei draed Ef, ac a'i rhoddes Ef yn Ben uwchlaw pob peth i'r Eglwys, yr hon yw ei Gorph Ef, a'i Gyflawnder Ef yr hwn ſydd yn cyflawni oll yn oll." Etto hefyd addas oedd fod y Pen hwn o'r un nattur a'r Corph ag oedd yn cael ei rwymo wrtho; ac am hynny rhaid oedd ei fod Ef yn

Dduw,

Dduw, (felly fel y gallai gyfrannogi â'n cnawd ni hefyd. "Canys aelodau ydym o'i Gorph (medd yr Apoſtol) o'i Gnawd, ac o'i Eſgyrn-Ef." "Ac oni fwyttëwch Gnawd Mab y Dyn (medd ein Lachawdwr ei hun) ac yfed ei Waed Ef, nid oes fywyd ynoch." Yr hwn ſy'n bwytta fy Nghnawd I, ac yn yfed fy Ngwaed I ſydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntef." Yn yr hyn y mynegir i ni, yn gyntaf ein bod trwy yr undeb dirgelaidd goruwch-naturiol hwn yn cael ein cyſylltu âg Ef mor wirioneddol, ag yw'r bwyd a'r ddiod ag y'm ni yn ei gymmeryd, pan trwy waith cyffredinol nattur mae ef yn cael ei droi yn ſylwedd i ni ein hunain. Yn ail fod y cyſylltiad hyn yn cael ei wneuthur yn ddi-gyfrwng a'i nattur ddynol Ef. Yn drydydd, i'r Oen a laddwyd, h. y. Crist wedi ei groes-hoelio trwy ei angau, wneud ei Gnawd rhwygedig a'i Waed tywalltedig troſom ni ar y groes i fod yn fwyd addas er yſprydol faeth i'n heneidiau; ac fel unig ffynnon, oddi wrth ba un, trwy allu ei Dduwdod y mae pob gras a bywyd yn cael eu troſglwyddo i ni.

Ar y ſail hyn dywed yr Apoſtol *Heb.* x. 19, 20. *bod i ni rydd-did i fyned i mewn i'r Cyſſegr, trwy Waed IESU, ar hyd Ffordd newydd a bywiol, yr hon a Gyſſegrodd Efe i ni trwy'r llen*, ſef, ei Gnawd ei hun. Fel ym Mhabell y cyfarfod nad oedd dim lle i fyned o'r lle ſanctaidd i'r lle Sacteiddiolaf heb trwy'r llen: felly yn awr, nid oes lle i ddiſgwyl gellir myned o'r Eglwys filwriaethus i'r Eglwys orfoleddus ond trwy ei Gnawd Ef, yr hwn a ddywedodd am dano ei hun, *Myfi yw'r Ffordd, a'r Gwirionedd, a'r bywyd; nid oes neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi.* Fe welodd Jacob yn ei freuddwyd Yſgol yn ſefyll ar y ddaear a'i phen yn cyrhaeddyd i'r Nefoedd, ac wele angylion Duw yn dringo ac yn diſgyn ar hyd-ddi, a'r *Arglwydd* ei hun yn ſefyll oddi arni. O ba weledigaeth ni all neb roi gwell dehongliad nag Ef ag oedd yn cael ei gyſgodi yn hon; pan ddywedodd wrth *Nathaniel*, "Ar ol hyn chwi welwch y nef yn agored, ac

angylion

angylion yn eſgyn ac yn diſgyn ar Fab y Dyn;" o ba le y gallwn yn gywir gaſglu mai yr unig foddion trwy ba rai mae Duw yr hwn ſy frŷ, a'i *Iſrael* Ef yma iſod yn cael eu cyſylltu ynghyd, a'r unig Yſgol, ar hyd ba un y gallwn ddringo i'r Nef, yw Mab y Dyn; cyſgod o Gnawd pa un oedd y *llen*, yr hon am hynny orch'mynwyd ei gwneud â Chenubiaid arni, i ddangos ein bod ni wedi *dyfod at ſyrddiwn o angylion*, pan y daethom *at Iſu Cyfryngwr y Teſtament newydd*: Yr hwn, fel Pen ei Eglwys, ſydd â gallu ganddo i ddanfon allan yr yſprydion gwaſanaethgar hynny i waſanaethu er eu mwyn hwy y rhai a gânt etifeddu Iachawdwriaeth. Yn olaf, rhaid i ni yſtyried, mai fel mae mewn perthynas i'r pethau ſy'n perthyn i Dduw y mae y prif gyflawniad o Offeiriadaeth ein Iachawdwr yn ſefyll, felly mewn pethau ſydd yn perthyn i ddyn mae Ef yn arferyd ei Swydd Brophwydoliaethol; trwy ba un y mae Ef yn agor Ewyllys ei Dad i ni; a'i Swydd Frenhinol, trwy ba un y mae Ef yn ein Llywodraethu, ac yn ein hamddiffyn. Rhan yn wir o ſwydd yr offeiriaid tan yr hên Deſtament oedd addyſgu'r bobl yng Nghyfraith Duw, ac etto yr oeddent yn wahanol oddi wrth Brophwydi: fel yn y Teſtament newydd hefyd yn gyffelyb, y Prophwydi cyſtal ag Apoſtolion a wneir o wahanol radd oddi wrth Fugeiliaid ac Athrawon cyffredin; y rhai na dderbyniaſant eu Hathrawiaeth trwy Yſprydoliaeth ddigyfrwng o'r Nef, fel y rhai eraill hynny *o ddynion Sanctaidd Duw y rhai a lafaraſant fel y cynhyrfwyd hwy gan yr Yſpryd glan.* Oddi yma mae *Paul* yn galw yr *Hebreaid* i gôf, "i Dduw wedi iddo lafaru lawer gwaith a llawer modd gynt wrth y tadau trwy y Prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn, a lafarodd wrthym ni yn ei Fab Iesu Grist;" yr hwn gan hynny y mae ef yn ei alw yn *Apoſtol* cyſtal ag yn *Arch-Offeiriad ein cyffes*; *yr hwn fydd yn ffyddlon i'r hwn a'i hordeiniodd Ef, megis y bu Moſes yn ei holl dŷ Ef.* Yn awr ni wyddom i *Moſes* gael rhagoriaeth neillduol uwch-law pawb eraill o'r Prophwydi; yn ol y Dyſ-

tiolaeth

tiolaeth helaeth y mae Duw ei hun yn ei roi amdano, *Num.* xii. 6, 7. "Os bydd prophwyd yr ARGLWYDD yn eich mysg, mewn Gweledigaeth yn hysbysaf iddo, neu mewn Breuddwyd y llafaraf wrtho; nid felly y mae fy ngwas Moses, yr hwn sydd ffyddlon yn fy holl dŷ. Wyneb yn wyneb y llafaraf wrtho mewn Gweledigaeth, nid mewn Damhegion; ond caiff edrych ar Wyneb yr ARGLWYDD." Ac am hynny yr y'm yn cael, bod ein CYFRYNGWR yng nghyflawniad o'i Swydd Brophwydoliaethol mewn dull mwy goruchel yn cael ei gymmaru i *Moses*: yr hyn beth a rag-ddywedodd Ef ei hunan fel hyn. *Deut.* xviii. 15, 16. *Yr Arglwydd dy Dduw a gyfyd i ti o'th blith dy hun, a'th frodyr dy hun, Brophwyd megis finnau; arno Ef y gwrandewch. Yn ol yr hyn oll a geisiaist gan yr Arglwydd dy Dduw yn Horeb yn nydd y gymmanfa; gan ddywedyd, Na chlywswyf mwyach lais yr Arglwydd fy Nuw, ac na welswyf y tân mawr hwn mwyach, rhag fy marw. A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Da y dywedasant yr hyn a ddywedasant.——Codaf Brophwyd iddynt o fysg eu brodyr fel tithau, a rhoddaf fy ngeiriau yn ei enau Ef; Efe a lafara wrthynt yr hyn oll a orchymynnwyf iddo. A phwy bynnag ni wrandawo ar fy ngeiriau, y rhai lafara Efe yn fy enw, myfi a'i gofynnaf ganddo.*

Rhaid gan hynny yw bod ein Prophwyd ni yn Ddyn, wedi ei godi o rhwng ei frodyr, yr *Israeliaid* (o ba rai ymherthynas i'r Cnawd y daeth Ef) yn hwn oedd i gyflawni i ni yr hyn ag oedd y teidiau yn ddymuno ar *Moses*; *Llafara di wrthym ni, a ni a wrandawn, ond na lafared Duw wrthym rhag i ni farw.* Ac etto (fel y gallom yn hyn hefyd weled pa fodd yr oedd ein Cyfryngwr yn rhagori) pan yr oedd *Aaron* a holl blant *Israel* i dderbyn o enau *Moses* yr hyn oll a ddywedodd yr ARGLWYDD wrtho ef yn mynydd Sinai, *Yr oeddent yn ofni agoshau atto ef, o herwydd gogoniant difgleirdeb ei wynebpryd*; fel y gorfu arno rui gorchudd tros ei wyneb tra fyddai yn llafaru wrthynt yr hyn a orchymynwyd iddo. Ond y peth hynny

ag oedd fel hyn tros amſer yn ogoneddus, nid oedd yn ogoneddus wrth ei gymmaru â'r Gogoniant hwnnw ſydd yn rhagori; Canys y gogoniant hwnnw yng-hyd â'r *gorchudd* oedd yn ei orchuddio y'nt yn awr wedi eu dileu yng NGHRIST, gorchudd Cnawd pa un ſydd felly yn gorchuddio diſgleirdeb ei Ogoniant, fel etto o tano y gallwn weled ei Ogoniant Ef, *Gogoniant megis yr unig anedig oddi wrth y Tad*; ïe, *a ni all âg wyneb agored yn edrych ar ogoniant yn Arglwydd megis mewn drych a newidir i'r un-rhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megis gan Yſpryd yr Arglwydd.* A hyn ſy'n cael ei weithredu yn feunyddiol trwy nerth gweinidogaeth yr Efengyl, wedi ei goſod trwy awdurdod, a'i heffeithio trwy allu ein Prophwyd mawr hwnw. Godidawgrwydd goruchel pa un tu hwnt i *Moſes* (ynghyflawniad o'r Swydd honno, y mae Ef mewn dull arall yn cael ei gyffelybu) oſodit allan fel hyn gan yr Apoſtol, *Heb.* iii. 3,—6. "Fe gyfrifwyd hwn yn haeddu mwy o ogoniant nâ Moſes, o gymmaint ag y mae yr Hwn a adeiladodd y tŷ yn cael mwy o barch nâ'r tŷ. Canys pob tŷ a adeiladir gan ryw un; ond yr hwn a adeiladodd bob peth yw DUW. A Moſes yn wir a fu ffyddlon yn ei holl dŷ Ef megis gwas, er tyſtiolaeth i'r pethau oedd i'w llafaru; eithr CRIST megis Mab ar ei Dŷ ei Hun:" Nid yw y tŷ hwn o eiddo DUW ddim arall ond *Eglwys y Duw byw*: o ba un, fel mai Efe yw yr unig ARGLWYDD, felly Efe yn briodol yw yr unig *Adeiladwr*. CRIST gan hynny, am ei fod yn ARGLWYDD, ac yn ADEILADWR ei Eglwys, ſydd raid ei fod yn DDUW cyſtal ag yn Ddyn: yr hyn yw yr achos pa ham yr y'm yn cael yr holl rannau o'r Tŷ mawr hwn yn dwyn yr enw o *Eglwyſi Duw*, ac *Eglwyſi Criſt*, cyſtal y naill a'r llall.

Gwir yw fod Adeiladwyr gweinidogaethol eraill a Swyddodd CRIST yn y gwaſanaeth hynny: nid y lleiaf o'r rhoddion hynny a roddodd Ef i ddynion ar ei Eſgynniad Buddugoliaethol i'r Nef oedd hyn, ſef rhoi, nid yn unig Fugeiliaid cyffredin, ac Athrawon;

ond

ond Apoſtolion hefyd a Phrophwydi *i berffeithio'r Saint i waith y Weinidogaeth i Adeilad Corph Criſt.* Yr hyn beth, pa fâth awdurdod y mae yn ei ofyn, Efe ei hun ſydd yn cyflawn ſynegu wrth roddi allan ei Gommiſiwn goruchel i'w Apoſtolion. "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y Nefoedd ac ar y ddaear. Ewch gan hynny a dyſgwch yr holl Genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Yſpryd glan; gan ddyſgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymynwyd i chwi: ac wele yr wyf fi gyd â chwi bob amſer hyd ddiwedd y byd." *Paul* ei hun ſydd yn tyſtio iddo ef lafurio yn fwy helaeth nâ neb o'r lleill o'r apoſtolion; *Eto nid myfi*, medd ef, *ond gras Duw yr hwn oedd gyd â mi.* Ac am hynny er mai ar ol gras Duw a roddwyd iddo, nid amheuodd na's goſododd ef y Sylfaen fel pen-ſaer celfydd; eitto mae ef yn addef eu bod hwy ar ba rai yr offeithiodd ef, yn *adeiladaeth* cyſtal *ag yn llafur-waith Duw. Canys pwy*, medd ef, *yw Paul? a phwy yw Apolos? ond gweinidogion trwy ba rai y credaſoch chwi, megis yr rhoddes yr Arglwydd i bob un? Myfi a blennais, ac Apolos a ddyfrhäodd; ond Duw a roddes y cynnydd. Felly nid yw yr hwn ſydd yn plannu ddim, na'r hwn ſydd yn dyfrhau, ond Duw yr hwn ſydd yn rhoi y cynnydd.* Yr ydym gan hynny yn cael dau beth yn ein Prophwyd mawr, y rhai ſydd ymhell yn rhagori ar bob cymhwyſiad ag ſydd mewn un dyn heb fod Duwdod ynddo; ac felly yn ei neillduoli Ef oddi wrth yr holl Brophwydi ſanctaidd y rhai oedd o ddechreuad y byd. Canys yn gyntaf fe'n dyſgir yn *Math.* xi. 27. *Nad oes neb yn adnabod y Tad ond y Mab, a'r hwn yr ewyllyſio y Mab ei ddatguddio iddo: ac ni welodd neb Dduw erioed; ond yr unig anedig Fab yr hwn ſydd ym mynwes y Tad, Efe a'i hyſbyſodd Ef.* Gan ei fod yn ei Fynwes Ef, mae Ef yn wybodus o'i holl ddirgelion Ef, ac felly o'i wybodaeth ddi-gyfrwng ei hun y mae Ef wedi ei alluogi i wneud yn amlwg holl Ewyllys ei Dad i ni; lle darfu i'r Apoſtolion eraill a'r Prophwydi dderbyn eu Datguddiedigaethau ar yr ail law, ac ar

ol y gras a roddwyd iddynt trwy Yspryd Crist: Tyſt odhynny yw y lle hwnnw o eiddo'r Apoſtol Pedr, 1 *Pedr* i. 10, 11. "Am yr hon Iachawdwriaeth yr ym moſyniodd ac y manol chwiliodd y Prophwydi, y rhai a Brophwydaſant am y Gras a ddeuai i chwi; gan chwilio pa bryd neu pa ryw amſer yr oedd Yspryd Crist yr hwn oedd ynddynt yn ei hyſpyſu, pan oeddEſe yn rhag-dyſtiolaethu dioddefaint Crist, a'r Gogoniant ar ol hynny." Ac am yr Apoſtolion, y geiriau nefol hynny ag a ſynegodd ein Harglwydd ei hun iddynt tra ſu Eſ gyd â hwynt, *Ioan.* xvi. 13, 14, 15. "Ond pan ddel efe ſef Yſpryd y Gwirionedd efe a'ch tywys chwi i bob Gwirionedd: canys ni lafara o hono ei hun, ond pa beth bynnag a glywo a lefara efe: a'r pethau fydd i ddyfod a ſynega efe i chwi.—Yr holl bethau ſydd eiddo'r Tad ydynt eiddo fi, o herwydd hynny y dywedais, O'r Eiddo fi y cymmer ac a'i mynega i chwi.

Yn ail, Pob Prophwydi ac Apoſtolion eraill ni's gallant wneud rhagor (fel y dywedpwyd eiſoes) ond plannu a dyfrhau; Duw yn unig ſydd yn rhoddi y ſendith: Hwy a allant Ddyſgu yn wir, a Bedyddio; ond oni bydd Crist gyd â hwynt trwy breſennoldeb awdurdodol ei Lan Yspryd, ni byddant abl i achub un enaid trwy eu gweinidogaeth eu hunain. *Nyni fel meini bywiol ydym wedi ein hadeiladu yn dŷ Yſprydol*; ond oni *Adeiladu yr Arglwydd y tŷ, ofer y llafuria yr adeiladwyr arnho*; canys pwy ſydd abl i anadlu bywyd i'r meini meirwon hynny ond Efe, am ba un yr yſgrifenwyd, *Mae yr aur yn dyfod, ac yn aur y mae, pan glywo'r meirw lais Mab Duw, a'r rhai a glywant a fyddant byw*; ac hefyd, *Deffro di yr hwn wyt yn cyſgu, a chyfod oddi wrth y meirw, a Chriſt a oleua i ti.* Pwy a all ein deffro ni o'r gwſg farwol hon, a rhoi goleuni i'r llygaid deillion hyn o'r eiddo ni, ond yr Arglwydd ein Duw, ar ba un yr y'm yn gweddio ar iddo oleuo ein llygaid rhag i'n gyſgu cwſg marwolaeth. Ac fel nad yw dyn dall yn abl i ddirnad gwahaniaeth lliwiau, er i'r dyn mwyaf

rus yn fyw arferyd yr holl ddyfais ſ'ai yn ei eiddo i'w ddyſgu, am na fedd lygaid, trwy ba rai y mae y gwrthrych yn cael ei farnu; felly y dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau ſydd o YSPRYD DUW; canys ffolineb ydynt ganddo ef, ac ni's gall eu gwybod, *canys yn yſprydol y bernir hwynt.* Ar ba beth y mae yr Apoſtol yn caſglu ymherthynas iddo ei hun, a'i holl gyd-weithwyr, *i Ddduw, yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, yw yr hwn a lewyrchodd yn ein calonnau ni i roddi goleuni gwybodaeth Gogoniant Duw yn wyneb Ieſu Griſt: Eithr y mae gennym y tryſor hwn mewn lleſtri pridd, fel y byddai godidawgrwydd y gallu o Ddduw ac nid o honom ni.* Ein CYFRYNGWR gan hynny (yr hwn ſydd raid fod yn *abl i achub hyd yr eitha y rhai ſydd yn dyfod at Dduw trwyddo ef*) ſydd heb eiſiau godidawgrwydd y gallu, trwy ba un y gall ef ein gwneud ni yn gymmwys i'r wybodaeth oruchel o bethau DUW, y rhai ſy'n cael eu gofod o'n blaen trwy Weinidogaeth ei Weiſion EF: ac yn ganlynol, yn yr yſtyr hyn hefyd, rhaid ei fod Ef yn DDUW cyſtal ag yn Ddyn.

Y mae yn ol i ddweud am Deyrnas ein GWARED-WR; yr hon a ddeſgrifir gan y Brophwyd, *Eſa.* ix. 7. *Ar helaethrwydd ei Lywodraeth a'i Dangneſtdd ni bydd diwedd; ar orſeddfa Dafydd, ac ar ei frenhiniaeth Ef, i'w threfnu hi, ac i'w chadarnhau â Barn ac â Chyfiawnder, o'r pryd hyn, hyd byth.* A chan Ddaniel vii. 13, 14. *Ac wele un fel Mab y Dyn a ddaeth gyd â chymmylau y nefoedd; ac at yr hên Ddihenydd y daeth, a hwy a'i dygaſant Ef ger ei fron Ef. Ac Efe a roddes iddo Lywodraeth, a Gogoniant, a Brenhiniaeth, fel y byddai i'r holl bobloedd, cenhedloedd, a ieithoedd ei waſanaethu Ef: ei Lywodraeth ſydd lywodraeth drag'wyddol, yr hon nid â ymaith, a'i Frenhiniaeth ni ddifethir.* A chan yr angel Gabriel yn ei gennadwri at y forwyn Fair, *Luc* i. 31, 32, 33. *Ac wele, ti a gei feichiogi yn dy grôth, ac a eſgori ar Fab, ac a elwi ei Enw Ef IESU. Hwn fydd mawr, ac a elwir yn Fab y Goruchaf: ac iddo y rhydd yr Arglwydd orſeddfa ei Dad Dafydd.*

Ac Efe a Deyrnaſa ar dŷ Jacob yn dragywydd, ac ar ei Frenhinaeth ni bydd diwedd. Hwn yw y Dafydd newydd hwnnw ein Brenin, yr hwn a gododd Duw i fynu i'w Iſrael ei hun: yr Hwn oedd yn wir yr hyn ag oedd Efe yn cael ei alw, ſef *Mab y Dyn*, a *Mab y Goruchaf*. Fel y gallwn ddweud mewn dull wrtho fel y dywedodd Iſrael gynt wrth eu Dafydd, *Wele dy aſgwrn di a'th gnawd di ydym ni*; ac mewn yſtyr arall i ganu am dano fel y gwnaeth *Dafydd* ei hun; *Yr Arglwydd a ddywedodd wrth fy Arglwydd, Eiſtedd ar fy neheulaw hyd oni oſodwyf dy elynion yn droed-ſaingc i'th draed.* Felly, fel y gall yr addewid hynny a wnaed i'n rhieni cyntaf y byddai i *Hâd y wraig ſigo ſtol y ſarph*, i gyd-ſefyll yn rhagorol â'r ymadrodd arall hynny o eiddo St. *Paul*; *y byddai i Dduw y tangnefedd i ſathru Satan tan eich traed chwi*, gan wybod mai i *hynny yr ymddangoſodd Mab Duw yn y cnawd, fel y dattodai weithredoedd diafol.* Ac fyth y fail hynny o eiddo Duw a beru yn ddi-yſgog. *Myfi, ie myfi yw yr Arglwydd, ac nid oes Geidwad arall ond myfi; ni chai gydnabod Duw arall ond myfi; ac nid oes Iachawdwr ond myfi.* Dwy gangen neilldual ſy o'r deyrnas hon o eiddo ein HARGLWYDD a'n IACHAWDWR; un o Ras, trwy ba un y mae y rhan hynny o'r Eglwys yn cael ei llywodraethu ag ſydd yn filwriaethus yma ar y ddaear; a'r llall o Ogoniant, yn perthyn i'r rhan hynny ag ſydd yn orfoleddus yn y nef. Yma ar y ddaear fel y mae Ef yn gweithio trwy ei ſwydd Brophwydoliaethol ar ein meddyliau a'n dyalldwriaethau, felly trwy ei ſwydd Frenhinol mae Ef yn llywodraethu ein hewyllys a'n ſerchiadau. *Gan fwrw dych'mygion i lawr, a phob meddwl ag ſydd yn codi yn erbyn gwybodaeth Duw*; a chan gaethiwo pob meddwl i ufudd-dod CRIST: fel y mae yn rhaid i ni addef *mai Duw ſydd yn gweithio ynom yr ewyllyſio a'r gallu*, ac mai Efe ſydd yn ein Sancteiddio ni yn gyfan: felly i'n dyſgir yr un wedd i gredu *bod yr Hwn ſydd yn Sancteiddio a rhai a Sancteiddir*, eu bod o'r un oll, h. y. o'r un a'r un-rhyw nattur fel na byddai gwilydd ar y Sancteiddiwr i alw y

rhei'ny

yhei'ny a Sanctteiddir ganddo, ei Frodyr. Ac fel darfu eu nattur hwy gael ei llygru a'u gwaed gael ei halogi yn yr *Adda* cyntaf, felly y gallai gael eu Iachau hwy drachefn yn yr ail *Adda*; ac fel oddi wrth un y daeth nattur lygredig, felly oddi wrth y llall y byddai Nattur bur ddihalogedig i gael ei throſglwyddo i Etifeddion Iachawdwriaeth.

Yr un Duw ag ſydd yn rhoi Gras, ſydd yn rhoi Gogoniant; etto felly fel y mae yn rhaid i ffrwd pob un o honynt i redeg i ni trwy y bibell aur o ddyndod ein HARGLWYDD; canys fel mai trwy ddyn y *daeth marwolaeth*, addas hefyd *mai trwy ddyn mae i ddyfod adgyfodiad y meirw*; 1 Cor. xv. ie, trwy y Dyn hwnnw ag a ddywedodd, *Pwy bynnag a fwyttao fy Ngnawd i, ac a yfo fy Ngwaed i, ſydd ganddo fywyd tragywyddol, ac mi a'i cyfodaf ef i fynu yn y dydd diweddaf:* Ioan vi. Yr hwn y pryd hynny a ddaw *i'w ogoneddu yn ei Saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll ſydd yn credu; ac a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y byddo yn gyffelyb i'w Gorph gogoneddus Ef, ar ol y nerthol weithrediad, trwy yr Hwn y gall Efe, ie ddaroſtwng pob peth iddo ei hun. Iddo Ef gan hynny, yr Hwn a'n Carodd ni, ac a'n golchodd ni oddi wrth ein pechodau yn ei Waed ei hun, ac a'n gwnaeth ni yn Frenhinoedd ac yn Offeiriaid i Dduw a'i Dad Ef, y byddo y Gogoniant a'r gallu yn awr ac yn oes oeſoedd, Amen.*——

DIWEDD.

O! ddirfawr fwyn werth-fawr Fôd!
O! ddi-fai DDUW am ddyfod,
I'r ddu-oer ddi-dda ddaear,
Nid Duw dîg, ond di-ddîg gâr
I ddynion, Och! mor afiach;
DUW oedd C'uwch ddoi'n Blentyn bach!
Im-ma-nu-el dawel Da,
A'i Aoh o gôr GORUCHA!
I'n nattur ddi-gyfur gift,
I'w hing yr ymoſtyng'iſt!
Fel o'ai ddynion o'th Ddonie,
Fyw, 'nôl Gras, yn Nheyrnas Nê'!——

Gristion *yn eu Credu, y rhai, er eu bod yn ymddangos yn wrthwyneb i Wirioned; etto ydynt yn Wirioneddau hollol—o gasgliad* Francis Bacon, Baron Verulam, Viscount St. Alban, *ac arglwydd uchel*-Chancellor *yngs Brydain.*

I. Y Mae Cristion yn un ag sydd yn Credu pethau na's gall Rheswm eu hamgyffred; y mae yn gobeithio am bethau na's gwelodd ef nag un dyn byw erioed; mae yn llafurio am bethau ag y gwyr ef na feddianna o honynt byth; etto, yn y diwedd fe ymddengys nad yw ei Grediniaeth ef yn dwyllodrus.

II. Mae ef yn Credu bod Tri yn UN, ac Un yn DRI; TAD heb fod yn Henach na'i FAB; MAB Go-gyfuwch â'i DAD; ac UN yn deilliaw o'r DDAU, Go-gyfuwch â'r DDAU. Mae ef yn Credu fod Tri PHERSON mewn Un NATTUR, a Dwy NATTUR mewn UN PERSON.

III. Mae ef yn Credu fod morwyn yn Fam i FAB; ac mai'r MAB hwnnw oedd ei Gwneuthurwr; mae ef yn credu iddo Ef gael ei gaued i fynu mewn lle cyfyng, yr Hwn ni's gallasai'r nef a'r ddaear ei gynnwys. Mae yn credu iddo Ef, yr hwn oedd, ac y sydd er tragywyddoldeb, i gael ei eni mewn amser. Mae yn Credu ei fod Ef yn Blentyn gwan yn cael ei ddwyn mewn breichiau, ag sydd yn Holl-Alluog; ac iddo Ef yr hwn yn unig a bia bywyd tragywyddol ynddo ei hun, unwaith Farw.

IV. Mae yn Credu i DDUW pob Gras ddigio wrth un na throseddodd erioed i'w erbyn; ac i DDUW yr hwn sydd yn casau pechod, gymmodi âg ef sydd yn pechu yn seunyddiol, heb fod syth yn gwneuthur nag yn abl gwneuthur Iawn. Mae yn Credu i DDUW Cyfiawn i gospi Person mwyaf Cyfiawn; ac iddo ei gyfiawnhau Ef er ei fod yn bechadur mwyaf gresynus. Mae yn Credu iddo gael cyflawn faddeuant yn rhad; etto i Iawn digonol gael ei roddi drosto.

V. Mae ef yn Credu ei fod ef ei hun yn werth-fawr yngolwg DUW; ac etto yn casau ei hunan yn ei olwg ei hun. Ni feiddia ese gyfiawnhau ei hun hyd nod yn

y pethau hynny ymha rai nad yw yn cael dim bai ynddo ei hun; ac etto mae yn credu fod Duw yn ei dderbyn ef yn gymmeradwy yn y gwaſanaeth hynny ag mae ef ei hun yn gallu cael allan amryw feiau.——

VI. Mae efe'n Moliannu Duw am ei Gyfiawnder; ac etto yn ei ofni ef am ei Drugaredd. Mae arno gymmaint gywilydd fel mae yn methu agor ei enau o flaen Duw; etto mae ef yn dyſod gyd âg hyfdra at Dduw; ac yn gofyn ganddo yr hyn ſydd eiſiau arno. Mae ef mor oſtyngedig ag mae yn addef ei hun i haeddu dim ond drwg; ac etto mae yn Credu yr rhydd Duw iddo bob daioni. Mae ef yn un ag ſydd yn ofni yn waſtad; etto mae ef yn hŷ fel Llew. Mae ef yn ſynych yn galaru, ond etto yn waſtad yn llawenhau. Amrywiol weithiau yn achwyn, ond bob amſer yn ddiolchgar; mae ef o'r meddwl mwyaf iſel; etto y dringwr mwyaf i fynu. Yr un mwyaf boddlon; etto o hyd yn deiſio rhagor.

VII. Mae ef yn dwyn yſpryd uchel mewn cyflwr tlawd; pan ſ'o mwyaf galluog mae yn meddwl waelaf am dano ei hun. Mae ef yn gyfoethog mewn tlodi, ac yn dlawd ynghanol cyfoeth. Mae yn Credu bod yr holl fyd yn eiddo iddo ei hun; etto ni faidd ef gymmeryd dim heb gennad neillduol oddi wrth Dduw. Nid yw ef yn cyfammodi â Duw am ddim; etto y mae ef yn diſgwyl am wobr helaeth. Mae ef yn colli ei einioes ac yn ynnill oddi wrthi; a thra b'o efe yn ei cholli, mae ef yn ei chael hi.

VIII. Nid yw ef yn byw ddim iddo ei hunan; etto mae ef yn ddoeth atto ei hun yn bennaf o bawb eraill. Mae ef yn ymwadu âg ef ei hun yn ſynych; etto nid oes neb yn caru ei hun well nag ef. Efe ſy fwyaf yn cael ei ddirmygu; etto efe ſy fwyaf yn cael ei anrhydeddu. Ei ran ef yw'r cyſtuddiau mwyaf, a'r cyſuron mwyaf.

IX. Pa fwyaf o golled wnelo ei elynion iddo; mwya mae ef yn ynnill ar eu dwylo. Pa fwyaf b'o ef yn ymwrthod â phethau'r ddaear, mwya gyd mae ef yn eu mwynhau hwy.

X. Efe yw'r mwyaf cymhedrol o bob dynion, etto

mae ef yn byw yn fwyaf danteithiol. Mae ef yn rhoi, ac yn rhoi heuthig yn eitha rhydd; etto efe yw'r occrwr pennaf. Mae ef yn addfwyn at bob dyn; etto yn wrthgas ynghyfri dynion.

XI. Efe yw y gwr, y Brawd, a'r Cyfaill goreu; etto mae ef yn cafàu tad, a mam, brawd, a chwaer. Mae ef yn caru pob dyn fel ei hunan; etto yn cafàu rhai dynion â'r cafineb mwyaf.

XII. Mae ef yn dymmuno cael mwy o Ras nà neb o fewn y byd; etto mae ef yn wir alarus pan y gwelo un dyn a llai gras nag ef ei hun. Nid yw yn adnabod neb yn ol y cnawd; etto yn rhoi i bob un ei barch dyledus: 'Fe wyr os boddlona ef ddynion na's gall ef fod yn was i GRIST; etto er mwyn CRIST mae ef yn ceifio boddloni pob dyn. Tangnefeddwr yw ef, ac hefyd ymdrechwr gwaftadol, ac yn elyn anghymmodol.

XIII. Mae ef yn credu mai gwaeth nâ'r di-ffydd yw yr hwn nad yw yn gofalu am ei deulu; etto mae ef ei hun yn byw ac yn marw heb ofal. Mae ef yn edrych ar bawb yn uwch nag ef ei hun; etto mae yn fefyll yn amhlygedig ar awdurdod. Mae ef yn farrug i'w blant am ei fod yn eu caru hwynt; a thrwy fod yn garedigol i'w elyn mae ef yn ymddial arno.

XIV. Mae ef yn credu bod yr angylion yn odidoccach creaduriaid nag ef ei hun; ac etto yn eu cyfrif hwynt yn weifion iddo. Mae yn credu ei fod yn derbyn llawer o bethau da trwyddynt hwy; ac etto nid yw yn gweddio dim am eu cymmorth, nag yn rhoi diolchgarwch iddynt; yr hyn beth nid yw yn diyftyru ei wneuthur i'r Crifiion gwaelaf.

XV. Mae ef yn credu ei fod yn Frenin, pa mor ifel bynnag y b'o; a pha mor uchel bynnag y b'o, etto nid yw yn meddwl ei hunan yn rhŷ dda i fod yn was i'r Sant lleiaf.

XVI. Mae yn fynych yn garcharwr; ac etto bob amfer mewn rhydd-did; yn was, ac etto yn rhydd. Nid yw ef yn caru anrhydedd gan ddynion; etto yn mawr briſio enw da.

XVII.

XVII. Mae ef yn credu mai Duw archodd i bob dyn ag ſydd yn gwneuthur iddo ddaioni, i wneuthur felly; etto, efe o bob dyn yw'r mwyaf diolchgar iddynt hwy ag ſydd yn gwneuthur dim da iddo. 'Fe oſod i lawr ei fywyd ei hun i gadw Enaid ei Elyn; etto nid anturia wneud un pechod i gadw bywyd hwnnw a gadwodd ei fywyd ef.

XVIII. Mae ef yn credu nad oes eiſiau dim ag y mae ef yn ei wneuthur ar GRIST, etto mae ef yn cyfrif ei fod ef yn cynnorthwyo CRIST ymhob gweithred o Elufen. 'Fe ŵyr na's gall ef wneuthur dim o hono ei hun; etto mae ef yn ymorcheſtu i weithio allan ei lachawdwriaeth. Mae ef yn proffeſu na's gall ef wneuthur dim; etto mor wir mae ef yn proffeſu y gall ef wneuthur pob peth. 'Fe ŵyr na's gall cîg a gwaed etifeddu teyrnas DDUW; etto mae yn credu yr â i'r nefoedd Gorph ac Enaid.

XIX. Mae ef yn Crynu wrth Air Duw; etto mae yn ei gyfrif yn fwy melus nâ'r mêl, na diferiad diliau mêl; a gwerthfawroccach nâ miloedd o aur ac arian.

XX. Mae yn Credu na ddamnia Duw byth o hono ef; etto yn oſni Duw am ei fod yn abl i'w daflu ef i uffern. 'Fe ŵyr na chedwir mo hono trwy, nag er mwyn ei weithredoedd da; etto mae yn gwneuthur gweithredoedd da hyd y gallo.

XXI. 'Fe ŵyr bod rhagluniaeth Duw yn cerdded trwy bob peth; etto mae mor ddiwyd yn ei alwedigaeth a'i negeſau fel pe byddai ar ei law ei hun i wneud i fynu ei happuſrwydd. Mae yn Credu i DDUW ymlaen llaw i drefnu pa beth yw ef i fod; ac nad oes dim ag a wna iddo newid ei fwriad; etto mae ef yn gweddio ac yn ymorcheſtu fel pe bai ef yn gallu cymmell Duw i'w achub ef byth.

XXII. Mae ef yn gweddio ac yn llafurio am y peth hynny ag y mae ef yn ſicr fod DDUW am ei roddi iddo; a pha fwyaf ſicr yw ef, mwyaf pryſur y mae yn gweddio am y peth hynny ag a ŵyr ef na's caiff ei feddiannu; ac etto ni rŷ i fynu. Mae yn gweddio ac yn

llafurio

llafurio am y peth hynny ag ŵyr ef nad yw ddim llai dedwydd hebddo. Mae yn gweddio a'i holl galon nad arweinir ef i brofedigaeth; etto mae ef yn llawenhau pan y ſyrthio ef iddi. Mae ef yn credu bod ei weddiau ef yn cael eu gwrando hyd yn oed pryd y b'ont hwy yn cael eu gwrthod; ac yn rhoi diolch i DDUW am y peth hynny ag y mae yn gweddio yn ei erbyn.

XXIII. Mae ganddo o'i fewn gnawd ac yſpryd; etto nid yw ef yn ddyn dau-ddyblyg ei feddwl. Mae ef yn cael ei ddwyn yn fynych yn gaeth gan ddeddf pechod; etto nid yw fyth yn llywodraethu arno. Ni's gall ef bechu; etto ni's gall wneud dim heb bechod. Nid yw yn gwneud dim yn erbyn ei ewyllys; etto mae yn dal ei fod yn gwneuthur y peth nad yw yn ei ewyllyſio. Mae ef yn bwhwman ac yn ammeu, etto yn cael ei dderbyn.

XXIV. Mae ef yn cael ei ergydio a'i ſiglo yn fynych; etto mae ef ſel mynydd Seion. Mae ef yn Sarph ac yn Golommen; yn Llew ac yn Oen; yn gorſen wan ac yn Goderwydden. Mae ef rai prydiau yn cael ei drallodi felly, fel mae yn meddwl nad oes dim gwir mewn Crefydd; etto pe bai ef yn credu felly ni fyddai trallod arno ddim. Mae ef yn meddwl rai prydiau nad oes gan DDUW ddim trugaredd iddo; etto mae ef yn bwriadu marw yn yr ymoſyniad am dani.

XXV. Mae ef yn ymdrechu; etto yn gorchfygu; ac er ei fod yn addef ei hun yn anheilwng o'r fendith leiaf ag mae ef yn ei fwynhau; etto fel Jacob nu chyll ei afael arno heb fendith newydd. 'Fe feddwl weithiau nad oes ynddo ddim gras oll, ac etto pa mor dlawd a chyſtuddiedig bynnag y b'o, ni newid efe ei gyflwr â'r dyn mwyaf llwyddianus tan y nef ag ſydd yn bechadur cyhoedd.

XXVI. 'Fe feddwl rai prydiau nad yw Ordinhadau Duw yn gwneud iddo ddim lleſhad; etto gwell fyddai ganddo golli ei fywyd nâ bod yn ymddifad o honynt.

XXVII. 'Fe anwyd yn farw; etto felly, fel buaſai yn fwrddrad i neb gymmeryd ei fywyd oddi arno.—Ar ol iddo ddechreu byw mae ef o hyd yn marw.

XXVIII.

XXVIII. Ac er bod ganddo fywyd trag'wyddol wedi ei ddechreu ynddo; etto mae yn cyfrif fod ganddo farwolaeth i fyned trwyddi.

XXIX. Mae ef yn cyfrif hunan-leiddiad yn bechod mawr; etto mae ef yn ddiwyd yn croeshoelio'r cnawd, ac i farwhau ei aelodau daearol; heb ammeu na s daw amſer gogoniant, pryd y bydd ef yn cael ei gyfrif yn werthfawr yngolwg Duw, a chael ymdiangos gyd â hyder o flaen ei orſedd, a gofyn pa beth bynnag a f'o arno ei eiſiau.

XXX. Mae ef yn byw yn anweledig i'r rhei'ny ag ſydd yn ei weled ef; ac nid yw y rhai ag ſydd yn ei 'nabod ef oreu ond bwrw amcan am dano; etto y rhei'ny yn fynych a farnant yn fwy cywir am dano nag y barna ef am dano ei hun.

XXXI. Y byd weithiau a'i cyfrifant ef yn Sant pan mae Duw yn ei gyfrif ef yn rhagrithiwr. Ac eilwaith pan y mae y byd yn ei enllibio ef fel rhagrithiwr, mae Duw yn ei arddel fel Sant.

XXXII. Ei farwolaeth ni wna ddiwedd arno. Yr enaid a oſodwyd yn ei gorph ni pherffeithir heb ei gorph; etto mwy dedwydd yw ei enaid pan y gwahenir ef oddi wrth y corph na'r pryd y b'o yn un âg ef. Ac er torri ei gorph yn ddarnau, a'i loſgi yn lludw, ei falu yn llŵch, troi yn falldod, etto nid yw waelach.

XXXIII. Ei Ddadleuwr a'i Feichiau ſydd ei Farnwr; a'i ran farwol a fydd yn an-farwol; a'r hwn a hauwyd mewn llygredigaeth a halogedigrwydd a gyfodir yn an-llygredig ac yn ogoneddus; a chreadur terfynol ddaw i feddianu Dedwyddwch an-herfynol.

Gogoniant i Ddaw.

HYMN. I.

Y Mae'r ddaear a'i theganau,
Yn diflannu fawr a mân;
Trag'wyddoldeb mawr yn unig,
Fel rhyw Genfor ſydd o 'mlaen:
Yno bydda'i ymhen 'chydig;
Dyna 'ngharrtreu, dyna'r fan;
Ca'i Dryſorau Iachawdwriaeth,
Anchwiliadwy yn ſy rhan.

2 Mae meddyliau am ben fy Siwrnau,
I mi'n llwyr ddiflasu'r byd;
Ac o Ddwyfol wir hyfrydwch,
Yn ei le f'o llanw 'mryd;
Dyna Wlad fy muddugoliaeth,
Dyna'r man y dof fi'n rhydd;
O'r anneirif nwydau blinion,
Sy'n fy maeddu nos a dydd.

3 Boddlon wyf bryd benna' mynno,
F' ARGLWYDD i ffarwelo â'r llawr;
Ond i'm gael ei bresennoldeb,
Yn nyfnderau'r afon fawr:
Goleu Haul Cyfiawnder yno,
Yn goleuo o fy 'mlaen;
Laesa'r gwyntoedd, ddofa'r tonnau,
Ac a ddiffydd rym y tân.

HYMN II.

1 MAE 'nwi'n awr hon ddymmuniadau,
Ani dryforau uwch y byd;
Rhaid myn'd trwy'r Iorddonen arw,
Cyn y llenwir hwynt i gyd:
Mae nhwy am ymeftyn beunydd,
Ac am gyfraedd dirwodd draw;
Neu gael profi mwy o'r gwleddoedd
Hynny yma maes o law.

2 Nid yw'r pethau 'welodd llygad,
Nid yw'r pethau deimloud llaw,
Nag un peth a flyfia nattur,
'Gydmaru ddim i'r pethau draw:
Cael ymborthi ar Ddwyfol fara,
Yn ddi-derfyn yn ddi-drai;
Yfed o afonydd bywyd,
Ydwi'n unig am fwynhau.

3 Dyma'r Graig y rhedai dyfroedd,
Dyfroedd bywiol Dwyfol pur;
Iachawdwriaeth dorrodd allan,
Ar *Galfaria* yn loyw clir:
Yma daw fy Enaid egwan,
'Nawr i 'motyn gwir Iachad
Perffaith at fy nghlwyfau dyfnion,
Dim yn llai na Dwyfol Waed.

BRITISH MUSEUM 25 57 APR